
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 181 (Cy.32)

GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr
Atodol Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol)
a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol)
(Diwygio a Diwygiad Canlyniadol) (Cymru) 2006**

Wedi'i wneud - - 31 Ionawr 2006

Yn dod i rym, ac eithrio

ar gyfer rheoliad 39(11) 1 Chwefror 2006

Rheoliad 39(11) 1 Awst 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 38, 39, 43ZA, 43D, 49F, 49I, 49M, 49N, 49O, 49P, 49Q, 49R, a 126(4) o'r Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (1) ac adran 65 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001(2) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

-
- (1) 1977 p.49 (“Deddf 1977); gweler adran 128(1) fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990, adran 26(2)(g) ac (i), ar gyfer diffiniadau “prescribed” a “regulations”.
Diwygiwyd adran 38 gan Ddeddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol 1984 (p.48) (“Deddf 1984”), adran 1(3); Deddf Iechyd a Meddygyniaethau 1988 (p.49), adran 13; gan O.S.1985/39, erthygl 7(11); Deddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) (“Deddf 1995”) adran 2(1) a pharagraffau 1 a 27 o'r Atodlen; a gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17) (“Deddf 2002”), adran 2(5) a pharagraffau 1 ac 11 o Atodlen 2.
Diwygiwyd adran 39 gan Ddeddf 1984, adran 1 a pharagraff 1 o Atodlen 1 ac Atodlen 8; Deddf 1995, adran 2 a pharagraff 28 o Atodlen 1; Deddf Iechyd 1999 (p.8) (“Deddf 1999”), adran 9(4); gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15) (“Deddf 2001”), adrannau 20 a 23; a chan Ddeddf 2002, adran 2(5) a pharagraffau 1 a 12 o Atodlen 2.
Mewnosodwyd adrannau 43ZA a 43D gan Ddeddf 2001, adrannau 21 a 24.
Mewnosodwyd adrannau 49F, 49I, 49L, 49M, 49N, 49P a 49Q gan Ddeddf 2001, adran 25.
Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2) a chan baragraff 37(6) i Atodlen 4 i Ddeddf 1999 Act a gan Ddeddf 2001, adran 67 a pharagraff 5(13)(b) i Atodlen 5.
Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 38, 39 a 126(4) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1999, adran 66(5); gan Ddeddf 2001, adran 68(1), gan Ddeddf 2002, adran 40(1) a thrwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43), adran 1971(1).
- (2) 2001 p.15.

Enwi, cychwyn a chymhwysio

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio a Diwygiad Canlyniadol) 2006 ac, ar wahân i reoliad 39(11), byddant yn dod i rym ar 1 Chwefror 2006.

(2) Bydd Rheoliad 39(11) yn dod i rym ar 1 Awst 2006.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

RHAN 1

Rhestr Atodol

Dehongliad

2.—(1) Yn y Rhan hon—

ystyr “achos o dwyll” (“*fraud case*”) yw achos lle mae person yn bodloni'r ail amod i gael ei dynnu oddi ar restr offthalmig, fel sydd wedi ei nodi yn adran 49F(3), neu berson sydd, yn rhinwedd adran 49H, yn cael ei drin fel pe bai wedi cael ei dynnu oddi ar y rhestr;

ystyr “anghymhwysiad cenedlaethol” (“*a national disqualification*”) yw penderfyniad—

- (a) a wnaed gan yr FHSAA i anghymhwysio'n genedlaethol ymarferydd meddygol offthalmig neu optegydd o dan adran 49N;
- (b) i anghymhwysio'n genedlaethol ymarferydd meddygol offthalmig neu optegydd o dan ddarpariaethau sydd mewn grym yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon sy'n cyfateb i adran 49N; neu
- (c) gan y Tribiwnlys, sy'n cael ei drin fel anghymhwysiad cenedlaethol gan yr FHSAA yn rhinwedd rheoliad 6(4) o Reoliadau Diddymu'r Tribiwnlys, neu reoliad 6(4) o Reoliadau Diddymu'r Tribiwnlys (Cymru);

ystyr “atal dros dro” (“*suspended*”) yw—

- (a) atal dros dro gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu gorff cyfatebol o dan adran 49I neu 49J, neu reoliadau a wnaed o dan adran 28DA neu 43D neu o dan adran 8ZA o'r Ddeddf Gofal Sylfaenol (3);
- (b) mewn perthynas â'r Alban neu Ogledd Iwerddon, atal dros dro o dan ddarpariaethau mewn grym sy'n cyfateb i'r rhai yn adrannau 28DA, 43D, 49I, 49J neu a wnaed o danynt neu o dan adran 8ZA o'r Ddeddf Gofal Sylfaenol,

a bydd yn cael ei drin fel pe bai'n cynnwys achos lle mae person yn cael ei drin fel pe bai wedi cael ei atal dros dro gan Fwrdd Iechyd Lleol, neu cyn 1 Ebrill 2003, gan Awdurdod Iechyd yn rhinwedd rheoliad 6(2) o Reoliadau Diddymu'r Tribiwnlys (Cymru), neu yn Lloegr, gan Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol, neu cyn 1 Hydref 2002 gan Awdurdod Iechyd yn rhinwedd rheoliad 6(2) o Reoliadau Diddymu'r Tribiwnlys, a dylid dehongli “atal dros dro” yn unol â hynny;

ystyr “corff cyfatebol” (“*equivalent body*”) yw—

- (a) Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol yn Lloegr;
- (b) Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn yr Alban;
- (c) Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon;
- (ch) mewn perthynas ag unrhyw amser cyn 1 Hydref 2002, Awdurdod Iechyd yn Lloegr; neu

(3) Mewnosodwyd adran 8ZA gan Ddeddf 2001, adran 26(2) a fe'i diwygiwyd gan Ddeddf 2002, Atodlen 3, paragraff 3.

(d) mewn perthynas ag unrhyw amser cyn 1 Ebrill 2003, Awdurdod Iechyd yng Nghymru; ystyr “corff trwyddedu neu reoleiddio” (“*licensing or regulatory body*”) yw corff sy'n trwyddedu neu'n rheoleiddio unrhyw broffesiwn y mae'r ymarferydd meddygol offthalmig neu optegydd yn aelod ohono, neu y bu'n aelod ohono yn y gorffennol, gan gynnwys corff sy'n rheoleiddio neu'n trwyddedu addysg, hyfforddiant neu gymwysterau'r proffesiwn hwnnw, ac mae'n cynnwys unrhyw gorff sy'n trwyddedu neu'n rheoleiddio unrhyw broffesiwn o'r fath, ei addysg, hyfforddiant neu gymwysterau, tu allan i'r Deyrnas Unedig;

ystyr “cyfarwyddwr” (“*director*”) yw—

(a) cyfarwyddwr corff corfforaethol; neu

(b) aelod o'r corff o bersonau sy'n rheoli corff corfforaethol (boed yn bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu beidio);

ystyr “cyflogaeth” (“*employment*”) yw unrhyw gyflogaeth, boed am dâl neu'n ddi-dâl a boed o dan gcontract am wasanaethau neu'n gcontract gwasanaeth, a dylai “cyflogedig” a “chyflogwr” gael eu dehongli yn unol â hynny;

ystyr “Deddf Gofal Sylfaenol” (“*Primary Care Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997(4);

ystyr “Diddymu Rheoliadau'r Tribiwnlys” (“*Abolition of the Tribunal Regulations*”) yw Diddymu Rheoliadau Tribiwnlys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2001(5);

ystyr “Diddymu Rheoliadau'r Tribiwnlys (Cymru)” (“*Abolition of the Tribunal (Wales) Regulations*”) yw Diddymu Rheoliadau Tribiwnlys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2002(6);

ystyr “digwyddiadau cychwynnol” (“*originating events*”) yw'r digwyddiadau a arweiniodd at y gollfarn, ymchwiliad, achos, atal dros dro, gwrthod mynediad, cynnwys yn amodol, tynnu oddi ar restr neu dynnu'n amodol;

ystyr “y Ddeddf Optegwyr” (“*Opticians Act*”) yw Deddf Optegwyr 1989(7);

ystyr “FHSAA” (“*FHSAA*”) yw'r Awdurdod Apeliadau Gwasanaeth Iechyd Teuluol sydd wedi ei gynnwys o dan adran 49S;

ystyr “y gofrestr” (“*the register*”), ac eithrio lle mae'r cyd-destun ym mynnu fel arall, yw mewn perthynas ag ymarferydd meddygol offthalmig, cofrestr a gedwir gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol, neu mewn perthynas ag optegydd, cofrestr a gedwir gan y Cyngor Optegol Cyffredinol;

ystyr “Gwasanaeth Gwrth-Dwyll a Rheoli Diogelwch y Gwasanaeth Iechyd Gwladol” (“*the NHS Counter Fraud and Security Management Service*”) yw'r corff sy'n gyfrifol am faterion polisi a gweithredol mewn perthynas ag atal, canfod ac archwilio twyll neu lygredd a rheoli diogelwch yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a sefydlwyd gan y Gorchymyn Cyfansoddiad a Sefydlu Gwasanaeth Gwrth-Dwyll a Rheoli Diogelwch 2002(8);

ystyr “gwasanaethau offthalmig cyffredinol” (“*general ophthalmic services*”) yw'r gwasanaethau y mae person sydd â'i enw wedi ei gynnwys ar restr offthalmig wedi ymgymeryd i'w darparu, yn unol â pharagraff 10 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Offthalmig;

ystyr “hysbysiad” (“*notice*”) yw hysbysiad mewn ysgrifen (gan gynnwys electronig) a bydd “hysbysu” yn cael ei ddeall yn unol â hynny;

(4) 1997 p.46.

(5) O.S.2001/3744.

(6) O.S.2002/1920.

(7) 1989 p.44.

(8) O.S.2002/3039. Mae Gwasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn disodli Gwasanaeth Gwrth-dwyll y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

ystyr “NCAA” (“*the NCAA*”) yw'r Awdurdod Asesu Clinigol Cenedlaethol;
 ystyr “NPSA” (“*the NPSA*”) yw Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion a sefydlwyd fel Awdurdod Iechyd Arbennig o dan adran 11;

ystyr “optegydd” (“*optician*”) yw person naturiol, sy'n optegydd offthalmig;

ystyr “Rheoliadau Offthalmig” (“*Ophthalmic Regulations*”) yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol 1986⁽⁹⁾);

ystyr “rhestr” (“*list*”), oni bai bod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol, yw—

- (a) rhestr y cyfeirir ati yn adran 49N(1)(a) i (c);
- (b) rhestr o bersonau sydd wedi ymgymeryd i ddarparu gwasanaethau meddygol cyffredinol a baratowyd yn unol â rheoliadau o dan adran 29, fel ag yr oedd y rhestr honno ar neu cyn 31 Mawrth 2004;
- (c) rhestr o bersonau sydd wedi eu cymeradwyo gan Fwrdd Iechyd Lleol at bwrpas helpu i ddarparu gwasanaethau meddygol cyffredinol a baratowyd yn unol â rheoliadau o dan adran 43D(1) fel ag yr oedd y rhestr honno ar neu cyn 31 Mawrth 2004; neu
- (ch) rhestr wasanaethau y cyfeirir ati yn adran 8ZA(1)(a) o Ddeddf Gofal Sylfaenol fel ag yr oedd y rhestr honno ar neu cyn 31 Mawrth 2004;

ystyr “rhestr gyfatebol” (“*equivalent list*”) yw rhestr a gedwir gan gorff cyfatebol;

ystyr “rhestr offthalmig” (“*ophthalmic list*”) yw'r rhestr a baratowyd gan Fwrdd Iechyd Lleol o dan reoliad 6⁽¹⁰⁾ y Rheoliadau Offthalmig;

ystyr “rhif cofrestru proffesiynol” (“*professional registration number*”) yw'r rhif wrth ymyl enw'r ymarferydd meddygol offthalmig neu'r optegydd ar y gofrestr;

ystyr “y Tribiwnlys” (“*the Tribunal*”) yw'r Tribiwnlys sydd wedi ei gynnwys o dan adran 46⁽¹¹⁾ ar gyfer Cymru a Lloegr, ac a oedd, ar wahân i achosion rhagnodedig, yn effeithiol o ran Cymru tan 26 Awst 2002 ac o ran Lloegr tan 14 Rhagfyr 2001⁽¹²⁾;

ystyr “ymarferydd” (“*practitioner*”), ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yw ymarferydd meddygol offthalmig neu optegydd;

ystyr “ymarferydd meddygol offthalmig” (“*ophthalmic medical practitioner*”) yw ymarferydd meddygol cofrestredig, sydd â'i gymwysterau wedi cael eu cymeradwyo fel cymwysterau rhagnodedig, yn unol â rheoliadau 3, 4 neu 5 o'r Rheoliadau Offthalmig; ac

mae “ymddygiad proffesiynol” (“*professional conduct*”) yn cynnwys materion sy'n ymwneud ag ymddygiad proffesiynol yn ogystal â pherfformiad proffesiynol.

(2) Mae pob cyfeiriad at adrannau yn y Rhan hon yn gyfeiriad at adrannau o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, ac eithrio lle a bennir yn wahanol.

Rhestr Atodol

3.—(1) Mae'n rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol baratoi a chyhoeddi rhestr atodol o'r holl ymarferwyr sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd Lleol er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol.

(2) Mae'n rhaid i'r rhestr atodol gael ei rhannu'n ddwy ran, bydd y rhan gyntaf yn ymwneud ag ymarferwyr meddygol offthalmig a'r ail ran yn ymwneud ag optegwyr.

(9) [O.S.1986/975](#).

(10) Diwygiwyd rheoliad 6 gan [O.S.2001/1423 \(Cy.98\)](#) ac [O.S.2002/1883 \(Cy.192\)](#).

(11) Diddymwyd adran 46 gan Ddeddf 2001, adran 67 ac Atodlen 5, paragraff 5, ac Atodlen 6, Rhan 1.

(12) Gweler [O.S.2001/3738](#), erthygl 2(5) a (6)(b), sy'n nodi'r achosion a ragnodwyd ar gyfer Lloegr ac [O.S.2002/1919](#), erthygl 2(2) a (3)(b), sy'n nodi'r achosion a ragnodwyd ar gyfer Cymru.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliad 21, nid yw ymarferydd yn gymwys i helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol, oni bai bod ei enw wedi ei gynnwys ar restr offthalmig neu restr atodol.

(4) Mewn perthynas ag unrhyw ymarferydd, sydd â'i enw wedi ei gynnwys ar y rhestr atodol, bydd y rhestr yn cynnwys y manylion canlynol am yr ymarferydd hwnnw—

- (a) enw llawn;
 - (b) rhif cofrestru proffesiynol, ac
 - (i) ar ffurf ôl-ddodiad i'r rhif hwnnw, y cod trefniadaethol a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Bwrdd Iechyd Lleol, a
 - (ii) ar ffurf rhagddodiad i'r rhif hwnnw, y blaenlythrennau SOL;
 - (c) dyddiad geni, pan fo'r ymarferydd wedi rhoi caniatâd, neu os nad yw wedi rhoi caniatâd, dyddiad cofrestrriad cyntaf yr ymarferydd ar y gofrestr; ac
 - (ch) dyddiad pan gafodd ei enw ei gynnwys gyntaf ar y rhestr atodol.
- (5) Mae'n rhaid i'r rhestr atodol fod ar gael i'r cyhoedd i'w archwilio.

Cais am gynnwys enw ymarferydd ar y rhestr atodol

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (7) i (11), rhaid i ymarferydd wneud cais i'w enw gael ei gynnwys ar y rhestr atodol drwy anfon cais ysgrifenedig at y Bwrdd Iechyd Lleol, a rhaid i'r cais gynnwys yr wybodaeth a grybwyllwyd ym mharagraff (2), yr ymrwymiadau a'r caniatadau sy'n ofynnol ym mharagraffau (3) a (6) ac unrhyw ddatganiad sy'n ofynnol o dan baragraffau (4) a (5).

(2) Mae'n rhaid i'r ymarferydd ddarparu'r wybodaeth ganlynol—

- (a) enw llawn;
- (b) rhyw;
- (c) dyddiad geni;
- (ch) cyfeiriad preifat a rhif ffôn;
- (d) manylion cymwysterau a lle yr enillwyd hwy;
- (dd) datganiad ei fod yn ymarferydd meddygol offthalmig neu optegydd sydd wedi ei gofrestru'n llawn, ac wedi ei gynnwys ar y rhestr;
- (e) rhif cofrestru proffesiynol a dyddiad y cofrestrriad cyntaf ar y gofrestr;
- (f) manylion cronolegol o brofiad proffesiynol (gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen pob penodiad ynghyd ag eglurhad am unrhyw fylchau rhwng penodiadau), gydag unrhyw fanylion ychwanegol sy'n cefnogi, ac eglurhad ynglyn â pham y cafodd ei ddiswyddo o unrhyw swydd;
- (ff) enwau a chyfeiriadau dau ganolwr, sy'n barod i ddarparu geirda mewn perthynas â dwy swydd ddiweddar (a all gynnwys unrhyw swydd bresennol) fel ymarferydd meddygol offthalmig neu optegydd, a barodd am o leiaf dri mis heb unrhyw fwllch sylweddol, a lle nad yw hyn yn bosibl, eglurhad llawn ac enwau a chyfeiriadau canolwyr eraill;
- (g) a oes gan yr ymarferydd unrhyw gais sy'n aros, gan gynnwys cais wedi ei ohirio, i gael ei gynnwys ar restr neu restr gyfatebol, ac os felly, manylion am y cais hwnnw;
- (ng) manylion am unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol neu restr gyfatebol y mae'r ymarferydd wedi cael ei dynnu oddi arni neu ei dynnu oddi arni'n amodol, neu y mae'r ymarferydd wedi cael gwrthod mynediad iddi neu y mae wedi cael ei gynnwys yn amodol, gydag eglurhad o'r rhesymau;
- (h) os mai'r ymarferydd yw cyfarwyddwr unrhyw gorff corfforaethol sydd wedi ei gynnwys ar unrhyw restr neu restr gyfatebol, neu sydd â chais sy'n aros (gan gynnwys cais wedi ei

ohirio) i gael ei gynnwys ar restr o'r fath, enw a chyfeiriad swyddfa gofrestredig y corff hwnnw a manylion y Bwrdd Iechyd Lleol neu gorff cyfatebol sy'n gysylltiedig; ac

- (i) pan fo'r ymarferydd yn gyfarwyddwr corff corfforaethol, neu lle'r oedd yn ystod y chwe mis blaenorol, neu adeg y digwyddiadau cychwynnol, manylion am unrhyw restr neu restr gyfatebol y gwrthodwyd i'r corff hwnnw gael bod arni, neu y cafodd ei gynnwys arni'n amodol, neu y cafodd ei dynnu oddi arni neu ei dynnu oddi arni'n amodol neu restr y mae wedi ei atal oddi arni dros dro ar hyn o bryd, gydag eglurhad o'r rhesymau a manylion am y Bwrdd Iechyd Lleol neu gorff cyfatebol sy'n gysylltiedig.
- (3) Mae'n rhaid i'r ymarferydd ddarparu'r ymrwymadau a'r caniatâd canlynol—
- (a) ymrwymiad i ddarparu'r datganiadau a'r ddogfen, lle bo'n gymwys, sy'n ofynnol gan reoliad 9;
 - (b) ymrwymiad i beidio â helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol arall neu gorff cyfatebol lle mae wedi cael ei dynnu oddi ar ei restr offthalmig neu restr atodol, ac eithrio lle tynnwyd ei enw oddi arni ar gais yr ymarferydd ei hun neu'n unol â rheoliad 10(7) neu 21(12) o'r Rheoliadau hyn, neu reoliad 9(2) o'r Rheoliadau Offthalmig, heb ganiatâd ysgrifenedig y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw neu gorff cyfatebol;
 - (c) ymrwymiad i hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol o fewn 7 diwrnod am unrhyw newidiadau materol i'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cais hyd nes bydd y cais wedi cael ei benderfynu'n derfynol;
 - (ch) ymrwymiad i hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol os yw'r ymarferydd wedi ei gynnwys, neu wedi gwneud cais i gael ei gynnwys ar unrhyw restr arall neu ar restr gyfatebol a gedwir gan Fwrdd Iechyd Lleol neu gorff cyfatebol; a
 - (d) chaniatâd i ddatgelu gwybodaeth yn unol â rheoliadau 16 a 20 o'r Rheoliadau hyn.
- (4) Rhaid i'r ymarferydd anfon datganiad gyda'r cais yn datgan a yw—
- (a) wedi cael unrhyw gollfarn droseddol yn y Deyrnas Unedig;
 - (b) wedi ei rwymo yn dilyn collfarn droseddol yn y Deyrnas Unedig;
 - (c) wedi derbyn rhybuddiad gan yr heddlu yn y Deyrnas Unedig;
 - (ch) wedi derbyn cynnig amodol o dan adran 302 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (yr Alban) 1995(13) (cosb benodedig: cynnig amodol gan brocuradur cyllidol) neu wedi cytuno i dalu cosb o dan adran 115A o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992(14) (cosb fel dewis arall yn lle erlyniad);
 - (d) mewn achos yn yr Alban am drosedd, wedi bod yn destun gorchymyn o dan adran 246(2) neu (3) o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (yr Alban) 1995 yn ei ryddhau yn llwyr;
 - (dd) wedi cael ei gollfarnu yn rhywle arall am drosedd, neu'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn dramgwydd troseddol pe bai wedi ei gyflawni yng Nghymru a Lloegr;
 - (e) ar hyn o bryd yn destun unrhyw achos a all arwain at gollfarn o'r fath, sydd ddim wedi cael ei hysbysu hyd yma i'r Bwrdd Iechyd Lleol;
 - (f) wedi bod yn ddarostyngedig i unrhyw ymchwiliad i'w ymddygiad proffesiynol gan unrhyw gorff trwyddedu, rheoleiddio neu gorff arall, lle bu'r canlyniad yn anffafriol;
 - (ff) y mae ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i unrhyw ymchwiliad i'w ymddygiad proffesiynol gan unrhyw gorff trwyddedu, rheoleiddio neu gorff arall;

(13) 1995 p.46.

(14) 1992 p.5.

- (g) yn ôl yr wybodaeth sydd gan yr ymarferydd, neu lle bu'r canlyniad yn anffafriol, y mae'n destun unrhyw ymchwiliad gan Wasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch y Gwasanaeth Iechyd Gwladol mewn perthynas â thwyll;
- (ng) yn destun unrhyw ymchwiliad gan Fwrdd Iechyd Lleol arall neu gorff cyfatebol, a all arwain at dynnu'r ymarferydd oddi ar unrhyw restr neu restr gyfatebol;
- (h) yn destun unrhyw ymchwiliad i'w ymddygiad proffesiynol mewn perthynas ag unrhyw gyflogaeth bresennol neu flaenorol, neu lle bu'r canlyniad yn anffafriol;
- (i) wedi cael ei dynnu, neu ei dynnu'n amodol, wedi cael gwrthod mynediad, neu wedi ei gynnwys yn amodol ar unrhyw restr neu restr gyfatebol a gedwir gan Fwrdd Iechyd Lleol arall neu gorff cyfatebol, neu wedi ei atal dros dro ar hyn o bryd o restr o'r fath, ac os felly, y rhesymau pam ac enw'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw neu gorff cyfatebol; neu
- (l) yn destun anghymhwysiad cenedlaethol ar hyn o bryd neu yn flaenorol,

ac, os felly, mae'n rhaid i'r ymarferydd roi manylion am y man lle mae unrhyw ymchwiliad neu achos wedi cael ei gynnal neu lle mae i'w gynnal, gan gynnwys dyddiadau bras yr ymchwiliad neu'r achos hwnnw, natur yr ymchwiliad neu'r achos, ac unrhyw ganlyniad.

(5) Os yw'r ymarferydd yn gyfarwyddwr corff corfforaethol, wedi bod yn gyfarwyddwr yn y chwe mis blaenorol, neu yn ystod y digwyddiadau cychwynnol, mae'n rhaid iddo hefyd wneud datganiad i'r Bwrdd Iechyd Lleol yn datgan a oes gan y corff corfforaethol—

- (a) unrhyw gollfarnau troseddol yn y Deyrnas Unedig;
- (b) a yw wedi cael ei gollfarnu yn rhywle arall am unrhyw drosedd, neu'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn dramgwydd troseddol pe bai wedi ei gyflawni yng Nghymru a Lloegr;
- (c) a yw ar hyn o bryd yn destun unrhyw achos a all arwain at gollfarn o'r fath, sydd heb ei hysbysu hyd yma i'r Bwrdd Iechyd Lleol
- (ch) a yw wedi bod yn ddarostyngedig i unrhyw ymchwiliad ynglyn â'i ddarpariaeth o wasanaethau proffesiynol gan unrhyw gorff trwyddedu, rheoleiddio neu gorff arall, lle bu'r canlyniad yn anffafriol;
- (d) yn ddarostyngedig ar hyn o bryd i unrhyw ymchwiliad i'w ddarpariaeth o wasanaethau proffesiynol gan unrhyw gorff trwyddedu, rheoleiddio neu gorff arall;
- (dd) a yw yn ôl yr wybodaeth sydd gan yr ymarferydd, yn destun neu wedi bod yn destun unrhyw ymchwiliad gan Wasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch y Gwasanaeth Iechyd Gwladol mewn perthynas â thwyll, lle bu'r canlyniad yn anffafriol;
- (e) a yw'n destun unrhyw ymchwiliad gan Fwrdd Iechyd Lleol arall neu gorff cyfatebol, a all arwain at ei dynnu oddi ar unrhyw restr neu restr gyfatebol; neu
- (f) a yw wedi'i dynnu neu wedi'i dynnu'n amodol oddi ar unrhyw restr neu restr gyfatebol, neu a wrthodwyd ei gynnwys neu a yw wedi'i gynnwys yn amodol ar unrhyw restr o'r fath neu a yw wedi'i atal dros dro rhag cael ei gynnwys ar restr o'r fath,

ac, os felly, mae'n rhaid i'r ymarferydd roi enw a chyfeiriad swyddfa gofrestrdedig y corff corfforaethol a manylion, gan gynnwys bras ddyddiadau, ynglyn â'r adeg y bydd unrhyw ymchwiliad neu achos yn cael ei gynnal neu wedi eu gynnal, natur yr ymchwiliad neu'r achos hwnnw, ac unrhyw ganlyniad.

(6) Mae'n rhaid i'r ymarferydd gytuno i gais a wneir gan y Bwrdd Iechyd Lleol i unrhyw gyflogwr neu gyn— gyflogwr, corff trwyddedu, rheoleiddio neu gorff arall yn y Deyrnas Unedig neu rywle arall, am wybodaeth sy'n ymwneud ag ymchwiliad cyfredol, neu ymchwiliad lle'r oedd y canlyniad yn anffafriol, i'r ymarferydd neu gorff corfforaethol y cyfeiriwyd ato ym mharagraffau (2) a (5) ac, at ddibenion y paragraff hwn, mae "cyflogwr" yn cynnwys unrhyw bartneriaeth y mae'r ymarferydd meddygol offthalmig neu optegydd yn aelod ohono, neu wedi bod yn aelod ohono;

(7) Os, yn achos unrhyw gais, y bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn canfod nad yw'r wybodaeth, y geiradaon neu'r ddogfennaeth a gyflenwyd gan yr ymarferydd yn ddigonol iddynt benderfynu cais

yr ymarferydd, mae'n rhaid i'r Bwrdd geisio cael unrhyw wybodaeth, unrhyw eirida neu unrhyw ddogfennaeth ychwanegol, y bydd yn gofyn yn rhesymol amdanynt er mwyn gwneud penderfyniad, oddi wrth yr ymarferydd ac mae'n rhaid i'r ymarferydd gyflenwi'r deunydd y gofynnir amdano i'r Bwrdd Iechyd Lleol.

(8) Yn achos cais i Fwrdd Iechyd Lleol gan ymarferydd, sydd wedi ei gynnwys ar restr offthalmig y Bwrdd, yn ceisio tynnu yn ôl o'r rhestr honno ac i gael cynnwys ei enw ar restr atodol y Bwrdd, ni fydd yn rhaid i'r ymarferydd ddarparu dim ar wahân i'r wybodaeth sy'n ofynnol ym mharagraffau (2), (4) a (5) i'r graddau—

- (a) nad yw'r wybodaeth eisoes wedi cael ei chyflenwi i'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw; neu
- (b) wedi newid ers ei darparu.

(9) Caiff unrhyw berson, nad yw'n optegydd, ond sy'n disgwyl bod yn optegydd ar ôl cwblhau ei hyfforddiant yn llwyddiannus, wneud cais i Fwrdd Iechyd Lleol ddim llai na 3 mis cyn y bydd yn disgwyl cael ei roi ar y gofrestr.

(10) Rhaid i gais o dan baragraff (9) gynnwys—

- (a) yr holl wybodaeth sydd wedi ei chrybwyll ym mharagraff (2), ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol gan is-bargraffau (dd) ac (e);
- (b) yr ymrwymadau a'r caniatadau sy'n ofynnol yn ôl paragraffau (3) a (6);
- (c) unrhyw ddatganiad sy'n ofynnol o dan baragraff (4) neu (5), ac

wrth gymhwysu'r Rheoliadau hyn i unrhyw gais o'r fath, rhaid i unrhyw gyfeiriad at optegydd gael ei ystyried fel cyfeiriad at ymgeisydd o dan baragraff (9).

(11) Mae'n rhaid i ymgeisydd o dan baragraff (9) ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan baragraff (2)(dd) ac (e) cyn gynted ag y bydd wedi cael ei hysbysu gan y Cyngor Optegol Cyffredinol a yw wedi cael ei dderbyn i'r gofrestr ac yna bydd y Bwrdd Iechyd Lleol, ar yr amod—

- (a) y cydymffurfir â gofynion paragraffau (9) a (10);
- (b) nad yw'r Bwrdd wedi gofyn am wybodaeth bellach, geiradaon neu ddogfennaeth o dan baragraff (7); ac
- (c) nad yw wedi gohirio'r cais o dan reoliad 7,

yn penderfynu'r cais o fewn 7 diwrnod ar ôl derbyn yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan baragraff (2) (dd) ac (e).

Aildderbyn

5.—(1) Pan fo ymarferydd wedi cael ei dynnu oddi ar restr atodol Bwrdd Iechyd Lleol gan y Bwrdd Iechyd Lleol ar y sail ei fod wedi cael ei gollfarnu am dramgwydd troseddol, a bod y gollfarn wedi ei gwrthdroi ar apêl, caiff y Bwrdd gytuno i gynnwys yr ymarferydd hwnnw ar ei restr atodol heb gais llawn os yw'n—

- (a) fodlon nad oes materion eraill sydd angen eu hystyried; a'i fod
- (b) wedi derbyn ymrwymiad gan yr ymarferydd i gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau hyn.

(2) Mewn achos lle mae paragraff (1) yn gymwys, os bydd y gollfarn yn cael ei hadfer mewn apêl diweddarach, bydd penderfyniad blaenorol y Bwrdd Iechyd Lleol i dynnu'r ymarferydd hwnnw oddi ar ei restr atodol yn effeithiol unwaith eto.

Penderfyniadau a sail dros apelio

6.—(1) Caiff Bwrdd Iechyd Lleol wrthod cynnwys ymarferydd ar ei restr atodol ar y seiliau canlynol—

- (a) os yw ar ôl ystyried y datganiad sy'n ofynnol dan reoliad 4(4) ac, os yn gymwys, rheoliad 4(5), ac unrhyw wybodaeth neu ddogfennau arall yn ei feddiant sy'n ymwneud â'r ymarferydd, yn ystyried nad yw'n addas i gael ei gynnwys ar ei restr atodol;
 - (b) os yw ar ôl gwirio'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymarferydd o dan reoliad 4(2)(d), (dd) ac (e), yn ystyried nad yw'n addas i gael ei gynnwys ar ei restr atodol;
 - (c) os nad yw ar ôl cysylltu â'r canolwyr a ddarparwyd gan yr ymarferydd o dan reoliad 4(2) (ff), yn foddol gyda'r geirdaon;
 - (ch) os yw ar ôl gwirio gyda Gwasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch y Gwasanaeth Iechyd Gwladol am unrhyw ffeithiau y mae'n eu hystyried sy'n berthnasol i ymchwiliadau cyfredol neu yn y gorffennol i dwyll sy'n bethnasol i, neu yn gysylltiedig â'r ymarferydd, ac wedi ystyried y rhain ac unrhyw ffeithiau eraill yn ei feddiant mewn perthynas â thwyll sy'n bethnasol i, neu yn gysylltiedig â'r ymarferydd, yn ystyried bod y rhain yn cyfiawnhau gwrthod;
 - (d) os yw ar ôl gwirio gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru ynglyn ag unrhyw ffeithiau y mae'n eu hystyried yn berthnasol mewn perthynas ag ymchwiliadau cyfredol neu yn y gorffennol neu achosion sy'n bethnasol i, neu yn gysylltiedig â'r ymarferydd, ac wedi ystyried y rhain ac unrhyw ffeithiau eraill yn ei feddiant sy'n bethnasol i, neu yn gysylltiedig â'r ymarferydd, yn ystyried eu bod yn cyfiawnhau gwrthod; neu
 - (dd) bod sail i ystyried y byddai derbyn yr ymarferydd i'w restr atodol yn rhagfarnu effeithlonrwydd y gwasanaeth y byddai'n ymgymeryd ag ef.
- (2) Mae'n rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol wrthod cynnwys ymarferydd ar ei restr atodol ar y seiliau canlynol—
- (a) nad yw'r ymarferydd wedi darparu tystiolaeth foddhaol ei fod yn bwriadu helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol yn ardal y Bwrdd;
 - (b) bod yr ymarferydd wedi ei gynnwys ar restr offthalmig unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol, oni bai ei fod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw ei fod yn dymuno tynnu ei enw'n ôl o'r rhestr honno;
 - (c) bod yr ymarferydd wedi ei gynnwys ar restr atodol Bwrdd Iechyd Lleol arall, oni bai bod yr ymarferydd wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw ei fod yn dymuno tynnu yn ôl o'r rhestr honno;
 - (ch) nad yw'n foddol bod gan yr ymarferydd yr wybodaeth angenrheidiol o Saesneg, er budd yr ymarferydd ei hun a buddiannau cleifion yr ymarferydd, i helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol yn ardal y Bwrdd;
 - (d) bod yr ymarferydd wedi cael ei gollfarnu am lofruddiaeth yn y Deyrnas Unedig;
 - (dd) bod yr ymarferydd wedi cael ei gollfarnu yn y Deyrnas Unedig am dramgwydd troseddol, ar wahân i lofruddiaeth, a gyflawnwyd ar neu ar ôl 1 Chwefror 2006 a'i fod wedi ei ddedfrydu i gyfnod o garchar am dros chwe mis;
 - (e) fod yr ymarferydd yn destun anghymhwysiad cenedlaethol;
 - (f) nad yw'r ymarferydd wedi diweddarau ei gais yn unol â rheoliad 7(4); neu
 - (ff) mewn achos lle mae rheoliad 15(4) yn berthnasol, nad yw'r ymarferydd yn hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol o dan reoliad 15(5) ei fod yn dymuno cael ei gynnwys ar restr atodol y Bwrdd yn amodol ar yr amodau penodedig.
- (3) Cyn dod i benderfyniad ar y cais a gyflwynwyd gan yr ymarferydd, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol—
- (a) wirio, hyd y bo'n rhesymol ymarferol, yr wybodaeth sydd wedi cael ei darparu, yn arbennig yr wybodaeth a ddarparwyd o dan reoliad 4(2), (4) ac, os yn gymwys, rheoliad (5), a sicrhau ei fod yn cael gweld y dogfennau perthnasol;

- (b) gwirio gyda Gwasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a oes ganddo unrhyw gofnod o dwyll mewn perthynas â'r ymarferydd;
 - (c) gwirio gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a oes unrhyw wybodaeth yn ei feddiant ynglyn ag unrhyw gofnod am ymchwiliadau neu achosion cyfredol neu yn y gorffennol sy'n bethnasol i, neu sy'n gysylltiedig â'r ymarferydd hwnnw; ac
 - (d) dilyn i fyny y geirda a ddarparwyd o dan reoliad 4(2)(ff).
- (4) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried gwrthod o dan baragraff (1) neu (2), mae'n rhaid iddo ystyried yr holl ffeithiau sy'n ymddangos yn berthnasol iddo, ac yn arbennig mae'n rhaid i'r Bwrdd ystyried, mewn perthynas â pharagraff (1)(a), (ch), neu (d)—
- (a) natur unrhyw drosedd, ymchwiliad neu ddigwyddiad;
 - (b) faint o amser sydd ers unrhyw drosedd, digwyddiad, collfarn neu ymchwiliad;
 - (c) a oes unrhyw droseddau, digwyddiadau neu ymchwiliadau eraill i'w hystyried;
 - (ch) unrhyw gamau gweithredu neu gosb a osodwyd gan unrhyw gorff trwyddedu, rheoleiddio neu gorff arall, yr heddlu neu'r llysoedd o ganlyniad i unrhyw drosedd, digwyddiad neu ymchwiliad o'r fath;
 - (d) perthnasedd unrhyw drosedd, ymchwiliad neu ddigwyddiad i'r ddarpariaeth gwasanaethau offthalmig cyffredinol gan yr ymarferydd ac unrhyw risg tebygol i'w gleifion neu i gyllid cyhoeddus;
- (dd) a oedd unrhyw drosedd yn drosedd rhywiol at bwrpas Rhan 2 o Ddeddf Troseddau Tramgywyddau Rhywiol 2003(15), neu a fyddai'n drosedd o'r fath pe bai wedi ei chyflawni yng Nghymru ac yn Lloegr;
- (e) a yw'r ymarferydd wedi cael gwrthod mynediad, neu wedi cael ei gynnwys yn amodol ar restr, wedi ei dynnu neu ei dynnu'n amodol oddi ar restr neu wedi ei atal dros dro ar hyn o bryd oddi ar unrhyw restr neu restr gyfatebol, ac os felly, y ffeithiau sy'n ymwneud â'r mater a arweiniodd at weithredu o'r fath a'r rhesymau a roddwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu gorff cyfatebol am weithredu felly; ac
 - (f) a oedd yr ymarferydd ar yr adeg honno, wedi bod yn ystod y chwe mis blaenorol, neu adeg y digwyddiadau cychwynnol, yn gyfarwyddwr corff corfforaethol, y gwrthodwyd rhoi mynediad iddo, a gafodd ei gynnwys yn amodol, ei dynnu neu ei dynnu'n amodol, oddi ar unrhyw restr neu restr gyfatebol neu a yw wedi ei atal dros dro ar hyn o bryd oddi wrth unrhyw restr o'r fath, ac os felly, beth oedd y ffeithiau ym mhob achos o'r fath a'r rhesymau a roddwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu gorff cyfatebol ym mhob achos.
- (5) Pan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn rhoi ystyriaeth i unrhyw un o'r materion a osodwyd ym mharagraff (4), mae'n rhaid iddo ystyried effaith gyffredinol yr holl faterion sy'n cael eu hystyried.
- (6) Bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'i benderfyniad i gynnwys neu beidio cynnwys yr ymarferydd ar ei restr atodol o fewn 7 diwrnod o'r penderfyniad hwnnw.
- (7) Rhaid i unrhyw hysbysiad pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn rhoi gwybod ei fod yn gwrthod cais i ymarferydd gael ei gynnwys ar ei restr atodol, gynnwys—
- (a) datganiad o'r rhesymau am ei benderfyniad (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnwyd arnynt);
 - (b) manylion am unrhyw hawl i apelio sy'n codi o dan reoliad 15; ac
 - (c) hysbysiad bod rhaid i unrhyw hawl i apelio gael ei weithredu o fewn 28 diwrnod yn dechrau o'r dyddiad pan roddodd hysbysiad o'i benderfyniad.

Gohirio penderfyniad ynglyn â chais

7.—(1) Caiff Bwrdd Iechyd Lleol ohirio penderfyniad am gais ymarferydd i gael ei gynnwys ar ei restr atodol, lle—

- (a) mewn perthynas â'r ymarferydd hwnnw, mae—
 - (i) achos troseddol yn y Deyrnas Unedig, neu
 - (ii) achos yn rhywle arall yn y byd sy'n ymwneud ag ymddygiad, a fyddai'n cael ei ystyried yn dramgwydd troseddol pe bai wedi digwydd yn y Deyrnas Unedig, a fyddai pe byddent yn arwain at gollfarn, neu'r hyn sy'n cyfateb i gollfarn, yn debygol o arwain at dynnu'r ymarferydd hwnnw oddi ar ei restr atodol, pe bai wedi ei gynnwys ar y rhestr;
- (b) mewn perthynas â chorff corfforaethol pan fo'r ymarferydd yn gyfarwyddwr, neu wedi bod yn gyfarwyddwr yn ystod y 6 mis blaenorol, neu adeg y digwyddiadau cychwynnol lle mae—
 - (i) achos troseddol yn y Deyrnas Unedig, neu
 - (ii) achos rhywle arall yn y byd yn ymwneud ag ymddygiad, a fyddai'n cael ei ystyried yn dramgwydd troseddol pe bai wedi digwydd yn y Deyrnas Unedig, a fyddai pe byddent yn arwain at gollfarn, neu'r hyn sy'n cyfateb i gollfarn, yn debygol o arwain at dynnu'r ymarferydd oddi ar ei restr atodol, pe bai wedi ei gynnwys ar y rhestr;
- (c) bod ymchwiliad yn cael ei gynnal yn unrhyw le yn y byd gan gorff trwyddedu neu reoleiddio'r ymarferydd neu unrhyw ymchwiliad arall (gan gynnwys un gan Fwrdd Iechyd Lleol arall neu gorff cyfatebol) sy'n gysylltiedig â'r ymarferydd yn rhinwedd ei swyddogaeth broffesiynol a fyddai, os yn anffafriol, yn debygol o arwain at dynnu'r ymarferydd oddi ar restr atodol y Bwrdd Iechyd Lleol, pe byddai wedi ei gynnwys ar y rhestr honno;
- (ch) bod yr ymarferydd wedi ei atal dros dro o unrhyw restr neu restr gyfatebol;
- (d) bod y corff corfforaethol pan fo'r ymarferydd yn gyfarwyddwr, neu wedi bod yn gyfarwyddwr yn ystod y chwe mis blaenorol, neu adeg y digwyddiadau cychwynnol, wedi ei atal dros dro o unrhyw restr neu restr gyfatebol;
- (dd) bod yr FHSAA yn ystyried apêl gan yr ymarferydd yn erbyn penderfyniad Bwrdd Iechyd Lleol i wrthod cynnwys yr ymarferydd ar ei restr atodol, neu i gynnwys yr ymarferydd yn amodol neu ei dynnu'n amodol oddi ar unrhyw restr a gedwir gan Fwrdd Iechyd Lleol lle byddai'r Bwrdd Iechyd Lleol pe bai'r apêl honno'n aflwyddiannus, yn debygol o dynnu'r ymarferydd oddi ar ei restr atodol, pe bai wedi ei gynnwys ar y rhestr yn y lle cyntaf;
- (e) bod yr FHSAA yn ystyried apêl gan gorff corfforaethol pan fo'r ymarferydd yn gyfarwyddwr, wedi bod yn gyfarwyddwr yn ystod y chwe mis blaenorol, neu adeg y digwyddiadau cychwynnol, yn erbyn penderfyniad gan Fwrdd Iechyd Lleol neu gorff cyfatebol i wrthod derbyn y corff corfforaethol i'w restr, neu ei gynnwys yn amodol neu ei dynnu'n amodol oddi ar unrhyw restr a gedwir gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu gorff cyfatebol, lle byddai'r Bwrdd Iechyd Lleol pe bai'r apêl honno'n aflwyddiannus, yn debygol o dynnu'r ymarferydd oddi ar ei restr atodol, pe bai wedi ei gynnwys ar y rhestr yn y lle cyntaf;
- (f) bod yr ymarferydd yn cael ei archwilio gan Wasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch y Gwasanaeth Iechyd Gwladol mewn perthynas ag unrhyw dwyll, lle byddai'r canlyniad, os yn anffafriol, yn debygol o arwain at dynnu'r ymarferydd oddi ar restr y Bwrdd Iechyd Lleol pe byddai'r ymarferydd wedi ei gynnwys ar y rhestr;
- (ff) bod corff corfforaethol, pan fo'r ymarferydd yn gyfarwyddwr, wedi bod yn gyfarwyddwr ohono yn ystod y chwe mis blaenorol, neu adeg y digwyddiadau cychwynnol, yn cael ei

archwilio mewn perthynas ag unrhyw dwyll, lle byddai'r canlyniad, os yn anffafriol, yn debygol o arwain at dynnu'r ymarferydd oddi ar restr atodol y Bwrdd Iechyd Lleol, pe byddai wedi ei gynnwys ar y rhestr; a

- (g) bod yr FHSAA yn ystyried cais gan Fwrdd Iechyd Lleol i anghymhwysu'n genedlaethol yr ymarferydd neu gorff corfforaethol pan fo'r ymarferydd yn gyfarwyddwr, wedi bod yn gyfarwyddwr yn ystod y chwe mis blaenorol, neu adeg y digwyddiadau cychwynnol.

(2) Ni all Bwrdd Iechyd Lleol ddim ond gohirio penderfyniad o dan baragraff (1) hyd nes y bydd canlyniad y digwyddiad perthnasol yn unrhyw un o is-baragraffau (a) i (g) o'r paragraff hwnnw yn wybyddus.

(3) Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ymarferydd ei fod wedi gohirio penderfyniad ynglyn â'r cais a'r rhesymau am hynny.

(4) Unwaith bod canlyniad y digwyddiad perthnasol sydd wedi ei grybwyll ym mharagraff (1) yn wybyddus, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ymarferydd bod rhaid iddo o fewn 28 diwrnod i gael ei hysbysu am y gofyniad (neu gyfnod hirach yn ôl yr hyn a gytunir gan y Bwrdd Iechyd Lleol)—

- (a) ddiweddarau ei gais; a
- (b) chadarnhau yn ysgrifenedig ei fod yn dymuno mynd ymlaen gyda'r cais.

(5) Cyn belled â bod unrhyw wybodaeth ychwanegol wedi cael ei derbyn o fewn 28 diwrnod neu o fewn yr amser a gytunwyd, bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn hysbysu'r ymarferydd cyn gynted ag y bo modd—

- (a) bod cais yr ymarferydd i gael ei gynnwys wedi bod yn llwyddiannus; neu
- (b) ei fod wedi penderfynu gwrthod cais yr ymarferydd neu osod amodau ar gynnwys yr ymarferydd ar y rhestr, a'r rhesymau am hyn (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnwyd arnynt), ac am unrhyw hawl i apelio o dan reoliad 15.

Cynnwys yn amodol

8.—(1) Caiff Bwrdd Iechyd Lleol benderfynu os bydd ymarferydd yn cael ei gynnwys ar y rhestr atodol, bod yr ymarferydd, tra bydd ar y rhestr honno, yn ddarostyngedig i amodau, gan roi sylw i ofynion adran 43D(5) (diben amodau).

(2) Os bydd ymarferydd yn methu â chydymffurfio ag amod, sydd wedi cael ei osod gan y Bwrdd Iechyd Lleol, caiff y Bwrdd dynnu'r ymarferydd hwnnw oddi ar ei restr atodol.

(3) Lle bo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried tynnu ymarferydd oddi ar ei restr atodol am dorri amod, mae'n rhaid iddo roi i'r ymarferydd—

- (a) hysbysiad am unrhyw honiad yn ei erbyn;
- (b) hysbysiad am sail y camau gweithredu y mae'n eu hystyried;
- (c) y cyfle i wneud sylwadau ysgrifenedig i'r Bwrdd o fewn 28 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad o dan is-baragraff (b); ac
- (ch) cyfle i gyflwyno ei achos mewn gwrandawriad llafar o flaen y Bwrdd, os yw'r ymarferydd yn gofyn am wrandawriad o fewn y cyfnod 28 diwrnod sydd wedi ei grybwyll yn is-baragraff (c).

(4) Os nad yw'r ymarferydd yn gwneud unrhyw sylwadau o fewn y cyfnod a nodwyd ym mharagraff (3)(c), bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu'r mater ac yn rhoi gwybod i'r ymarferydd am—

- (a) ei benderfyniad a'r rhesymau (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnwyd arnynt); a
- (b) unrhyw hawl i apelio o dan reoliad 15

o fewn 7 diwrnod o wneud y penderfyniad hwnnw.

(5) Os bydd yr ymarferydd yn gwneud sylwadau, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol eu hystyried cyn dod i benderfyniad, yna bydd yn hysbysu'r ymarferydd—

- (a) o'i benderfyniad a'r rhesymau (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnwyd arnynt); a
- (b) unrhyw hawl i apelio o dan reoliad 15

o fewn 7 diwrnod o wneud y penderfyniad hwnnw.

(6) Os yw'r ymarferydd yn gofyn am wrandawriad llafar, mae'n rhaid ei gynnal cyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddod i benderfyniad ac yna mae'n rhaid iddo hysbysu'r ymarferydd am—

- (a) ei benderfyniad a'r rhesymau (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnwyd arnynt); a
- (b) unrhyw hawl i apelio o dan reoliad 15

o fewn 7 diwrnod o wneud y penderfyniad hwnnw.

(7) Pan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn hysbysu'r ymarferydd am unrhyw benderfyniad a wnaed yn unol â'r rheoliad hwn, mae'n rhaid iddo roi gwybod i'r ymarferydd os yw'n dymuno gweithredu'r hawl i apelio, mae'n rhaid i'r ymarferydd wneud hynny o fewn 28 diwrnod, gan ddechrau gyda'r dyddiad y rhoddwyd hysbysiad o'r penderfyniad, ac mae'n rhaid i'r Bwrdd ddweud wrth yr ymarferydd sut i weithredu unrhyw hawl o'r fath.

(8) Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hefyd hysbysu'r ymarferydd am hawl yr ymarferydd i gael adolygiad o'r penderfyniad yn unol â rheoliad 14.

(9) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu y caiff ymarferydd—

- (a) gael ei gynnwys ar ei restr atodol, ond yn ddarostyngedig i amodau a osodwyd o dan y rheoliad hwn; neu
- (b) y bydd yn ddarostyngedig i amodau tra bydd yr ymarferydd wedi ei gynnwys ar ei restr atodol,

gellir cynnwys enw'r ymarferydd (neu barhau i'w ei gynnwys) ar ei restr atodol yn ystod y cyfnod y gellir dod ag apêl ger bron yr FHSAA yn unol â rheoliad 15, neu os ceir apêl, hyd nes bydd yr apêl wedi ei benderfynu, cyn belled â bod yr ymarferydd yn cytuno mewn ysgrifen i gael ei rwymo gan yr amodau a osodir hyd nes bydd yr amser apelio wedi mynd heibio neu hyd nes y bo'r apêl wedi ei benderfynu.

Gofynion y mae'n rhaid i ymarferydd ar y rhestr atodol gydymffurfio â hwy

9.—(1) Mae'n rhaid i ymarferydd, sydd wedi ei gynnwys ar restr atodol Bwrdd Iechyd Lleol, wneud datganiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw o fewn 7 diwrnod i'r digwyddiad os bydd—

- (a) yn cael ei gollfarnu am unrhyw dramgwydd troseddol yn y Deyrnas Unedig;
- (b) yn cael ei rwymo drosodd yn dilyn collfarn droseddol yn y Deyrnas Unedig;
- (c) yn derbyn rhybuddiad gan yr heddlu yn y Deyrnas Unedig;
- (ch) wedi derbyn cynnig amodol o dan adran 302 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (yr Alban) 1995 (cosb benodedig: cynnig amodol gan brocuradur cyllidol) neu wedi cytuno i dalu cosb o dan adran 115A o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 (cosb fel dewis arall yn lle erlyniad);
- (d) mewn achos troseddol yn yr Alban, wedi bod yn destun gorchymyn o dan adran 246(2) neu (3) o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (yr Alban) 1995 yn ei ryddhau yn llwyr;
- (dd) wedi ei gollfarnu yn rhywle arall am drosedd, neu'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn dramgwydd troseddol pe bai wedi ei gyflawni yng Nghymru a Lloegr;

- (e) wedi ei gyhuddo o dramgwydd troseddol yn y Deyrnas Unedig, neu wedi ei gyhuddo yn rhywle arall am drosedd a fyddai'n cael ei ystyried yn dramgwydd troseddol pe bai wedi ei gyflawni yng Nghymru a Lloegr;
- (f) wedi cael gwybod gan unrhyw gorff trwyddedu, rheoleiddio neu gorff arall am ganlyniad unrhyw ymchwiliad i ymddygiad proffesiynol ymarferydd, a'r dyfarniad yn erbyn yr ymarferydd;
- (ff) yn dod yn destun unrhyw ymchwiliad i'w ymddygiad proffesiynol gan unrhyw gorff trwyddedu, rheoleiddio neu gorff arall;
- (g) yn ddarostyngedig i ymchwiliad i ymddygiad proffesiynol yr ymarferydd mewn perthynas ag unrhyw gyflogaeth bresennol neu flaenorol, neu wedi cael gwybod am ganlyniad unrhyw ymchwiliad o'r fath, pan fo'r canlyniad hwnnw yn anffafriol;
- (ng) yn ôl yr wybodaeth sydd gan yr ymarferydd, yn dod yn destun ymchwiliad gan Wasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch y Gwasanaeth Iechyd Gwladol mewn perthynas â thwyll, neu bod yr ymarferydd yn cael gwybod am ganlyniad ymchwiliad o'r fath, pan fo'n anffafriol;
- (h) yn dod yn destun unrhyw ymchwiliad gan Fwrdd Iechyd Lleol arall, a all arwain at dynnu'r ymarferydd oddi ar unrhyw restr neu restr gyfatebol; neu
- (i) wedi ei dynnu, ei dynnu'n amodol neu wedi ei atal dros dro, wedi cael gwrthod mynediad, neu wedi ei gynnwys yn amodol ar unrhyw restr neu restr gyfatebol,

ac, os felly, rhaid i'r ymarferydd roi manylion, gan gynnwys bras ddyddiadau, a phan fo unrhyw ymchwiliad neu achos yn cael eu cynnal, natur yr ymchwiliad neu'r achos hwnnw, ac unrhyw ganlyniad.

(2) Rhaid i ymarferydd sydd wedi cael ei gynnwys ar restr atodol Bwrdd Iechyd Lleol ac sydd, neu a oedd yn y chwe mis blaenorol, neu adeg y digwyddiadau cychwynnol, yn gyfarwyddwr corff corfforaethol, wneud datganiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw o fewn 7 diwrnod iddo ddiwydd os yw'r corff corfforaethol hwnnw—

- (a) wedi ei gollfarnu am unrhyw dramgwydd troseddol yn y Deyrnas Unedig;
- (b) wedi ei gollfarnu yn rhywle arall am drosedd, neu'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn dramgwydd troseddol pe bai wedi ei gyflawni yng Nghymru a Lloegr;
- (c) wedi ei gyhuddo o dramgwydd troseddol yn y Deyrnas Unedig, neu wedi ei gyhuddo yn rhywle arall o drosedd a fyddai'n cael ei ystyried yn dramgwydd troseddol pe bai wedi ei gyflawni yng Nghymru a Lloegr;
- (ch) wedi cael gwybod gan unrhyw gorff trwyddedu, rheoleiddio neu gorff arall am ganlyniad unrhyw ymchwiliad i'w ddarpariaeth o wasanaethau proffesiynol, a bod y dyfarniad yn erbyn y corff corfforaethol;
- (d) yn dod yn destun unrhyw ymchwiliad i'w ddarpariaeth o wasanaethau proffesiynol gan unrhyw gorff trwyddedu, rheoleiddio neu gorff arall;
- (dd) yn dod, fel y gwyr yr ymarferydd yn destun unrhyw ymchwiliad mewn perthynas â thwyll, neu'n cael gwybod am ganlyniad ymchwiliad o'r fath, pan fo'n'n anffafriol;
- (e) yn dod yn destun unrhyw ymchwiliad gan Fwrdd Iechyd Lleol arall neu gorff cyfatebol, a all arwain at ei dynnu oddi ar unrhyw restr neu restr gyfatebol; neu
- (f) wedi ei dynnu, ei dynnu'n amodol neu ei atal dros dro, wedi cael ei wrthod rhag cael ei gynnwys ar y rhestr, neu wedi ei gynnwys yn amodol ar unrhyw restr neu restr gyfatebol,

ac, os felly, yn rhoi enw a chyfeiriad cofrestredig y corff corfforaethol a manylion, gan gynnwys bras ddyddiadau, pan fydd ymchwiliad neu achos wedi bod neu eto i ddod, natur yr ymchwiliad neu achos, ac unrhyw ganlyniad.

(3) Rhaid i ymarferydd sydd wedi ei gynnwys ar restr atodol Bwrdd Iechyd Lleol roi caniatâd i gais gael ei wneud gan y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw i unrhyw gyflogwr neu gyn gyflogwr, corff trwyddedu, rheoleiddio neu gorff arall yn y Deyrnas Unedig neu rywle arall, am wybodaeth sy'n ymwneud ag ymchwiliad cyfredol, neu ymchwiliad lle yr oedd y canlyniad yn anffafriol, gan y cyflogwr neu'r corff hwnnw i'r ymarferydd neu gorff corfforaethol y cyfeirir ato ym mharagraff (1) neu (2) ac, at ddibenion y paragraff hwn, mae "cyflogwr" yn cynnwys partneriaeth y mae'r ymarferydd yn aelod ohoni neu y bu yn aelod ohoni.

(4) Rhaid i ymarferydd sydd wedi ei gynnwys ar restr atodol Bwrdd Iechyd Lleol roddi i'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw dystysgrif cofnod troseddol fwy manwl o dan adran 115 o Ddeddf yr Heddlu 1997(16) mewn perthynas â'r ymarferydd, os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol ar unrhyw adeg, am achos rhesymol, yn rhoi hysbysiad iddo ddarparu tystysgrif o'r fath.

Tynnu oddi ar y rhestr atodol

10.—(1) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dynnu ymarferydd oddi ar ei restr atodol os daw yn ymwybodol bod yr ymarferydd—

- (a) wedi cael ei gollfarnu yn y Deyrnas Unedig am lofruddiaeth;
- (b) wedi cael ei gollfarnu yn y Deyrnas Unedig am dramgwydd troseddol, ar wahân i lofruddiaeth, a gyflawnwyd ar neu ar ôl 1 Chwefror 2006, ac mae wedi cael ei ddeddfydu i gyfnod mewn carchar o dros chwe mis;
- (c) yn ddarostyngedig i anghymhwysiad cenedlaethol;
- (ch) wedi marw;
- (d) fel arall wedi peidio â bod yn ymarferydd;
- (dd) yn achos ymarferydd sy'n ymarferydd meddygol offthalmig, yn destun—
 - (i) cyfarwyddyd a roddwyd gan Bwyllgor Ymddygiad Proffesiynol y Cyngor Meddygol Cyffredinol o dan adran 36(1)(i) neu (ii) o Ddeddf Feddygol 1983(17) (camymddygiad proffesiynol a thramgwyddau troseddol),
 - (ii) gorchymyn neu gyfarwyddyd a wnaed gan y Pwyllgor hwnnw o dan adran 38(1) o Ddeddf Feddygol 1983 (gorchymyn i atal dros dro ar unwaith), neu
 - (iii) ar ôl i erthygl 13 o Orchymyn Deddf Feddygol 1983 (Diwygio) 2002 ddod i rym, cyfarwyddyd gan Banel Ffitrwydd i Ymarfer y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer dileu neu atal dros dro ar unwaith o dan adran 35D(2)(a) neu (b), 10(a) neu (b), neu 12(a) neu (b) (swyddogaethau Panel Ffitrwydd i Ymarfer), neu adran 38(1) (pŵer i orchymyn atal dros dro ar unwaith etc.) o Ddeddf Feddygol 1983;
- (e) yn achos ymarferydd sy'n optegydd, yn destun gorchymyn atal dros dro o dan adran 17 o Ddeddf Optegwyr;
- (f) yn achos ymarferydd sy'n optegydd, yn destun cyfarwyddyd a wnaed gan Bwyllgor Ffitrwydd i Ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol, ac eithrio mewn achos iechyd i ddileu enw'r ymarferydd oddi ar y gofrestr briodol neu atal dros dro gofrestrriad yr ymarferydd o dan adran 13F(3)(a) neu (b), 7(a) neu (b) neu 13(a) neu (b) (pwerau'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer) o'r Ddeddf Optegwyr;
- (ff) wedi ei gynnwys ar restr offthalmig unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol, neu restr atodol Bwrdd Iechyd Lleol arall,

ac mae'n rhaid iddo, ac eithrio mewn achos sy'n disgyn o fewn is-baragraff (ch), hysbysu'r ymarferydd ar unwaith ei fod wedi gwneud hynny.

(16) 1997 p.50; diwygiadau sy'n berthnasol yw Deddf 2001, adran 19(1), (2) a (3); a Deddf 2002, adran 2(5) a pharagraff 54 o Atodlen 2.

(17) 1983 p.54; diwygiwyd adran 36 gan O.S.2000/1803.

(2) Ym mharagraff (1), mae gan “achos iechyd” yr ystyr a roddwyd i “health case” yn adran 13G(6) o'r Ddeddf Optegwyr.

(3) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cael ei hysbysu gan yr FHSAA ei fod wedi ystyried apêl gan ymarferydd yn erbyn—

- (a) cael ei dynnu yn amodol oddi ar y rhestr gan y Bwrdd Iechyd Lleol a'i fod wedi penderfynu tynnu'r ymarferydd oddi ar y rhestr yn lle hynny; neu
- (b) ei gynnwys yn amodol ar y rhestr, pan fo'r ymarferydd wedi cael ei gynnwys yn amodol ar y rhestr atodol hyd nes bydd yr apêl wedi ei benderfynu, ac wedi penderfynu peidio â chynnwys yr ymarferydd ar y rhestr,

rhaidd i'r Bwrdd Iechyd Lleol dynnu'r ymarferydd oddi ar ei restr atodol a rhaid iddo hysbysu'r ymarferydd ar unwaith ei fod wedi gwneud hynny.

(4) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol dynnu ymarferydd oddi ar ei restr atodol os bydd unrhyw un o'r amodau sydd wedi eu nodi ym mharagraff (5) yn cael eu bodloni.

(5) Dyma'r amodau sydd wedi eu crybwyll ym mharagraff (4)—

- (a) y byddai parhau i gynnwys yr ymarferydd hwnnw ar y rhestr atodol yn niweidiol i effeithlonrwydd y gwasanaethau y mae'r rhai sydd wedi eu cynnwys ar y rhestr yn helpu i'w darparu (“achos effeithlonrwydd”);
- (b) bod yr ymarferydd yn gysylltiedig ag achos twyll mewn perthynas ag unrhyw gynllun iechyd; neu
- (c) nad yw'r ymarferydd yn addas i'w gael ei gynnwys ar y rhestr honno (“achos o anaddasrwydd”).

(6) At ddibenion y rheoliad hwn, yn ogystal â'r gwasanaethau sydd wedi eu cynnwys gan y diffiniad o “gynllun iechyd” yn adran 48F(8), mae'r canlynol yn gynlluniau iechyd hefyd—

- (a) gwasanaethau iechyd, gan gynnwys triniaeth feddygol a llawfeddygol, a ddarperir gan Lloedd Ei Mawrhydi;
- (b) gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd sydd wedi eu cynnwys o dan Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Afiechydon) 1984(18);
- (c) gwasanaethau iechyd a ddarparwyd i garcharor yng ngofal swyddog meddygol neu swyddog carchar a benodwyd at bwrpas adran 7 o Ddeddf Carchar 1952(19); ac
- (ch) gwasanaethau iechyd a ariannir gan arian cyhoeddus a ddarperir gan neu ar ran unrhyw sefydliad yn unrhyw le yn y byd.

(7) Os na all yr ymarferydd ddangos ei fod wedi helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol o fewn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol yn ystod y chwe mis blaenorol, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol dynnu'r ymarferydd oddi ar ei restr atodol.

(8) Wrth gyfrifo'r cyfnod o chwe mis y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (7), bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn diystyru unrhyw gyfnod yr oedd yr ymarferydd—

- (a) wedi ei atal dros dro o dan y Rheoliadau hyn; neu
- (b) yn cyflawni gwasanaeth amser llawn yn Lloedd Arfog y Goron—
 - (i) mewn argyfwng cenedlaethol fel gwirfoddolwr neu fel arall; neu
 - (ii) a oedd yn orfodol, gan gynnwys gwasanaeth o ganlyniad i unrhyw atebolrwydd wrth gefn neu wasanaeth cyfatebol gan berson sydd yn atebol i wasanaeth llawn amser yn y lloedd hynny.

(18) 1984 p.22.

(19) 1952 p.52.

(9) Lle bo Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried tynnu ymarferydd oddi ar ei restr atodol o dan baragraffau (4) i (7), rheoliad 8, 12(4)(c) neu 15(6) neu dynnu yr ymarferydd yn amodol o dan reoliad 12, mae'n rhaid i'r Bwrdd roi i'r ymarferydd—

- (a) hysbysiad am unrhyw honiad yn ei erbyn;
- (b) hysbysiad ynglyn â pha gamau gweithredu y mae'n eu hystyried ac ar ba sail;
- (c) y cyfle i wneud sylwadau ysgrifenedig i'r Bwrdd o fewn 28 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad o dan is-baragraff (b); ac
- (ch) cyfle i gyflwyno ei achos mewn gwrandawriad llafar o flaen y Bwrdd, os yw'r ymarferydd yn gofyn am hynny o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau y cyfeiriwyd ato yn is-baragraff (c).

(10) Os nad oes sylwadau o fewn y cyfnod a nodir ym mharagraff (9)(c), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ymarferydd o'i—

- (a) penderfyniad a'r rhesymau am y penderfyniad (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnir arnynt); ac
- (b) unrhyw hawl i apelio o dan reoliad 15

o fewn 7 diwrnod o wneud y penderfyniad hwnnw.

(11) Os bydd yr ymarferydd yn gwneud sylwadau mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol roi ystyriaeth iddynt cyn dod i benderfyniad, a rhaid i'r Bwrdd hysbysu'r ymarferydd beth yw ei—

- (a) penderfyniad a'r rhesymau (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnir arnynt); a
- (b) unrhyw hawl i apelio o dan reoliad 15,

o fewn 7 diwrnod o wneud y penderfyniad hwnnw.

(12) Os bydd yr ymarferydd yn gofyn am wrandawriad llafar, rhaid i'r gwrandawriad gael ei gynnal cyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddod i benderfyniad a rhaid i'r Bwrdd wedyn hysbysu'r ymarferydd—

- (a) beth yw ei benderfyniad a'r rhesymau (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnir arnynt); a
- (b) am unrhyw hawl i apelio o dan reoliad 15,

o fewn 7 diwrnod o wneud y penderfyniad hwnnw.

(13) Pan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn hysbysu'r ymarferydd am unrhyw benderfyniad mae'n rhaid iddo roi gwybod i'r ymarferydd os yw eisiau defnyddio ei hawl i apelio yna mae'n rhaid iddo wneud hynny o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau gyda'r dyddiad y rhoddodd wybod i'r ymarferydd am ei benderfyniad ac mae'n rhaid i'r Bwrdd hefyd ddweud wrth yr ymarferydd sut i ddefnyddio unrhyw hawl o'r fath.

(14) Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hefyd hysbysu'r ymarferydd am hawl yr ymarferydd i gael adolygiad o'r penderfyniad yn unol â rheoliad 14.

(15) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu tynnu'r ymarferydd oddi ar y rhestr o dan baragraff (4) neu (7), ni chaiff yr ymarferydd ei dynnu oddi ar ei restr atodol tan—

- (a) diwedd cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau gyda'r diwrnod y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn dod i benderfyniad; neu
- (b) y bydd yr FHSAA wedi ymdrin ag unrhyw apêl,

pa un bynnag sy'n digwydd olaf.

Meini prawf ar gyfer penderfyniad i dynnu oddi ar y rhestr atodol

11.—(1) Lle mae Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried a ddylid tynnu ymarferydd oddi ar ei restr atodol o dan reoliad 10(4) a (5)(c) (“achos anaddasrwydd”) rhaid iddo—

- (a) ystyried unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r ymarferydd y mae wedi ei derbyn yn unol ag unrhyw ddarpariaeth o reoliad 9;

- (b) ystyried unrhyw wybodaeth sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am unrhyw gofnod ynglŷn ag ymchwiliadau neu achosion cyfredol neu yn y gorffennol sy'n bethnasol i, neu sy'n gysylltiedig â'r ymarferydd; ac
 - (c) wrth ddod i benderfyniad, yn rhoi ystyriaeth i'r materion sydd wedi eu nodi ym mharagraff (2).
- (2) Dyma'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(c)—
- (a) natur unrhyw drosedd, ymchwiliad neu ddigwyddiad;
 - (b) hyd yr amser ers i unrhyw drosedd, digwyddiad, collfarn neu ymchwiliad ddigwydd neu ddod i ben;
 - (c) a oes troseddau, digwyddiadau neu ymchwiliadau eraill i'w hystyried;
 - (ch) unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd neu gosb a osodwyd gan unrhyw gorff trwyddedu neu reoleiddio, yr heddlu neu'r llysoedd o ganlyniad i unrhyw drosedd, digwyddiad neu ymchwiliad o'r fath;
 - (d) perthnasedd unrhyw drosedd, digwyddiad neu ymchwiliad mewn perthynas â darpariaeth yr ymarferydd o wasanaethau offthalmig cyffredinol ac unrhyw risg tebygol i unrhyw gleifion neu gyllid cyhoeddus;
 - (dd) a oedd unrhyw dramgwydd troseddol yn drosedd rhywiol at ddibenion Rhan 2 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, neu a fyddai wedi cael ei ystyried yn drosedd o'r fath pe bai wedi ei gyflawni yng Nghymru a Lloegr;
 - (e) a yw'r ymarferydd wedi cael gwrthod mynediad, wedi ei gynnwys yn amodol, ei dynnu neu ei dynnu'n amodol neu wedi ei atal ar hyn o bryd o unrhyw restr neu restr gyfatebol, ac os felly, y rhesymau sy'n gysylltiedig â'r mater a arweiniodd at weithredu o'r fath a'r rhesymau a roddwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu gorff cyfatebol am weithredu felly; ac
 - (f) a oedd yr ymarferydd ar y pryd, yn y chwe mis blaenorol, neu adeg y digwyddiadau cychwynnol, yn gyfarwyddwr corff corfforaethol y gwrthodwyd ei gynnwys ar y rhestr, a gafodd ei gynnwys yn amodol, ei dynnu neu ei dynnu'n amodol oddi ar unrhyw restr neu restr gyfatebol neu sydd wedi ei atal ar hyn o bryd oddi wrth unrhyw restr o'r fath, ac os felly, beth oedd y ffeithiau ym mhob achos o'r fath a'r rhesymau a roddwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu gorff cyfatebol ym mhob achos am weithredu o'r fath.
- (3) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried tynnu ymarferydd oddi ar ei restr atodol neu beidio, o dan reoliad 10(4) a (5)(b) (“achos o dwyll”), mae'n rhaid i'r Bwrdd ystyried—
- (a) unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r ymarferydd y mae wedi ei derbyn yn unol ag unrhyw ddarpariaeth yn rheoliad 9;
 - (b) unrhyw wybodaeth sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am unrhyw gofnod ynglŷn ag ymchwiliadau neu achosion cyfredol neu yn y gorffennol sy'n bethnasol i, neu yn gysylltiedig â'r ymarferydd; ac
 - (c) materion sydd wedi eu nodi ym mharagraff (4).
- (4) Dyma'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (3)(c)—
- (a) natur unrhyw ddigwyddiadau neu dwyll;
 - (b) hyd yr amser ers y digwyddiad diwethaf o dwyll ac ers i unrhyw ymchwiliad iddo ddod i ben;
 - (c) a oes digwyddiadau eraill o dwyll neu dramgwyddau troseddol eraill i'w hystyried;
 - (ch) unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd gan unrhyw gorff trwyddedu, rheoleiddio neu arall, neu gan yr heddlu neu'r llysoedd o ganlyniad i drosedd, ymchwiliad neu ddigwyddiad o'r fath;

- (d) perthnasedd unrhyw ymchwiliad i ddigwyddiad o dwyll i'r ymarferydd sy'n helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol a'r risg tebygol i gleifion neu gyllid cyhoeddus;
 - (dd) a yw'r ymarferydd wedi cael ei wrthod rhag cael ei gynnwys ar y rhestr, wedi ei gynnwys yn amodol, ei dynnu neu ei dynnu'n amodol neu wedi ei atal ar hyn o bryd oddi ar unrhyw restr neu restr gyfatebol, ac os felly, y ffeithiau sy'n gysylltiedig â'r mater a arweiniodd at weithredu o'r fath a'r rhesymau a roddwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu gorff cyfatebol am weithredu o'r fath;
 - (e) a oedd yr ymarferydd ar yr adeg honno, yn ystod y chwe mis blaenorol, neu adeg y digwyddiadau cychwynnol, yn gyfarwyddwr corff corfforaethol, y gwrthodwyd ei gynnwys ar y rhestr, a gafodd ei gynnwys yn amodol, a gafodd ei dynnu neu ei dynnu'n amodol oddi ar unrhyw restr neu restr gyfatebol, neu sydd wedi ei atal ar hyn o bryd o unrhyw restr o'r fath, ac os felly, beth oedd y ffeithiau ym mhob achos o'r fath a'r rhesymau a roddwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu gorff cyfatebol ym mhob achos.
- (5) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried tynnu ymarferydd oddi ar ei restr atodol o dan reoliad 10(4) a (5)(a) ("achos o effeithlonrwydd"), mae'n rhaid iddo—
- (a) ystyried unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r ymarferydd y mae wedi ei derbyn yn unol ag unrhyw ddarpariaeth yn rheoliad 9;
 - (b) ystyried unrhyw wybodaeth sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am unrhyw gofnod ynglŷn ag ymchwiliadau neu achosion cyfredol neu yn y gorffennol sy'n bethnasol i, neu yn gysylltiedig â'r ymarferydd; ac
 - (c) materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (6).
- (6) Dyma'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (5)(c)—
- (a) natur unrhyw ddigwyddiad a oedd yn niweidiol i effeithlonrwydd y gwasanaethau offthalmig cyffredinol yr oedd yr ymarferydd wedi helpu i'w darparu;
 - (b) hyd yr amser ers y digwyddiad diwethaf ac ers y daeth unrhyw ymchwiliad iddo i ben;
 - (c) unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd gan unrhyw gorff trwyddedu, rheoleiddio neu gorff arall, yr heddlu neu'r llysoedd o ganlyniad i unrhyw ddigwyddiad o'r fath;
 - (ch) natur y digwyddiad ac a oes risg tebygol i gleifion neu beidio;
 - (d) a yw'r ymarferydd wedi methu'n flaenorol i gyflenwi gwybodaeth, i wneud datganiad neu i gydymffurfio gydag ymrwymiad sy'n ofynnol gan y Rheoliadau hyn neu'r Rheoliadau Offthalmig;
 - (dd) a yw'r ymarferydd erioed wedi methu â chydymffurfio â chais gan y Bwrdd Iechyd Lleol i gymryd asesiad gan yr NCAA ar neu cyn 31 Mawrth 2005 neu ar ôl hynny gan yr NPSA;
 - (e) a yw'r ymarferydd wedi cael gwrthod mynediad, wedi ei gynnwys yn amodol, wedi ei dynnu neu ei dynnu'n amodol neu a yw wedi ei atal ar hyn o bryd oddi ar unrhyw restr neu restr gyfatebol, ac os felly, y ffeithiau sy'n gysylltiedig â'r mater a arweiniodd at weithredu o'r fath a'r rhesymau a roddwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu'r corff cyfatebol am weithredu o'r fath; ac
 - (f) a oedd yr ymarferydd ar yr adeg honno, yn y chwe mis blaenorol, neu adeg y digwyddiadau cychwynnol, yn gyfarwyddwr corff corfforaethol y gwrthodwyd ei gynnwys ar y rhestr, a gafodd ei gynnwys yn amodol, ei dynnu neu ei dynnu'n amodol oddi ar unrhyw restr neu restr gyfatebol, neu a yw wedi ei atal ar hyn o bryd oddi ar unrhyw restr o'r fath, ac os felly, beth oedd y ffeithiau ym mhob achos o'r fath a'r rhesymau a roddwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu gorff cyfatebol ym mhob achos am weithredu o'r fath.

(7) Wrth wneud unrhyw benderfyniad o dan reoliad 10, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol roi ystyriaeth i effaith gyffredinol unrhyw ddigwyddiadau a throseddau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r ymarferydd y mae'n ymwbybodol ohonynt, beth bynnag yw'r amod y mae'n dibynnu arno.

(8) Wrth wneud penderfyniad ynglŷn ag unrhyw amod yn rheoliad 10(5), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol nodi yn ei benderfyniad ar ba amod y mae'n dibynnu arno.

Tynnu'n amodol oddi ar y rhestr

12.—(1) Mewn achos o effeithlonrwydd neu achos o dwyll caiff y Bwrdd Iechyd Lleol, yn lle penderfynu tynnu ymarferydd oddi ar ei restr atodol, benderfynu tynnu'r ymarferydd yn amodol a bydd rheoliad 10(13) a (14) yn gymwys i'r penderfyniad hwnnw.

(2) Pan fo'r Bwrdd yn penderfynu felly, rhaid iddo osod amodau o'r fath fel y gall benderfynu cynnwys yr ymarferydd ar ei restr atodol gyda'r bwriad o—

- (a) ddileu unrhyw beth a all fod yn niweidiol i effeithlonrwydd y gwasanaethau dan sylw (mewn achos effeithlonrwydd); neu
- (b) atal gweithredoedd neu ddiffygion pellach (mewn achos o dwyll).

(3) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu tynnu ymarferydd yn amodol o dan baragraff (1) ni fydd y penderfyniad hwnnw yn dod i rym tan—

- (a) ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau gyda'r diwrnod y bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn dod i benderfyniad; neu
- (b) y bydd unrhyw apêl yn cael ei benderfynu gan yr FHSAA,

pa un bynnag yw'r hwyraf.

(4) Os bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu bod yr ymarferydd wedi methu â chydymffurfio ag amod gall benderfynu—

- (a) amrywio'r amodau a osodir;
- (b) gosod amodau newydd;
- (c) tynnu'r ymarferydd oddi ar ei restr atodol.

Atal dros dro

13.—(1) Os bydd Bwrdd Iechyd Lleol yn fodlon fod rhaid gwneud hynny er mwyn diogelu'r cyhoedd neu er lles y cyhoedd, caiff atal ymarferydd dros dro o'i restr atodol yn unol â darpariaethau'r rheoliad hwn—

- (a) tra mae wrthi'n penderfynu a ddylid defnyddio ei bwerau i dynnu'r ymarferydd oddi ar ei restr neu beidio o dan reoliad 10 neu a ddylid tynnu'r ymarferydd oddi ar y rhestr yn amodol o dan reoliad 12;
- (b) tra mae wrthi'n aros am benderfyniad corff trwyddedu neu reoleiddio neu lys yn unrhyw ran o'r byd sy'n effeithio ar yr ymarferydd;
- (c) os bydd yn penderfynu tynnu'r ymarferydd oddi ar y rhestr, ond cyn i'r penderfyniad hwnnw ddod i rym; neu
- (ch) hyd nes ceir apêl o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Mewn achos sy'n disgyn o fewn paragraff (1)(a), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol bennu cyfnod, o ddim mwy na chwe mis, fel cyfnod yr atal dros dro.

(3) Mewn achos sy'n disgyn o fewn paragraff (1)(b), caiff y Bwrdd Iechyd Lleol bennu bod yr ymarferydd yn parhau i fod wedi ei atal dros dro, ar ôl i'r penderfyniad y cyfeirir ato yn yr is-baragraff gael ei wneud, am gyfnod ychwanegol o ddim mwy na chwe mis.

(4) Gall cyfnod yr atal dros dro o dan baragraff (2) neu (3) ymestyn tu hwnt i chwe mis os—

- (a) bydd yr FHSAA yn gorchymyn hynny ar gais y Bwrdd Iechyd Lleol;
 - (b) os gwnaeth y Bwrdd Iechyd Lleol gais o dan is-baragraff (a) cyn i'r cyfnod atal dros dro ddod i ben, ond heb i'r FHSAA wneud gorchymyn cyn iddo ddod i ben, yn yr achos hynnw bydd yn parhau hyd nes bydd yr FHSAA yn gwneud gorchymyn.
- (5) Os bydd yr FHSAA yn gorchymyn hynny, rhaid iddo bennu—
- (a) y dyddiad y bydd cyfnod yr atal dros dro yn dod i ben;
 - (b) na fydd cyfnod yr atal dros dro yn parhau ar ôl rhyw ddigwyddiad penodol; neu
 - (c) dyddiad pryd y bydd cyfnod yr atal dros dro yn dod i ben a digwyddiad pan na fydd yn parhau ar ei ôl, ac os felly bydd yn dod i ben ar y cyntaf o'r dyddiadau neu'r digwyddiadau hynny yn ôl y digwydd.
- (6) Gall yr FHSAA, ar gais y Bwrdd Iechyd Lleol, wneud gorchymyn pellach, a fydd hefyd yn gorfod cydymffurfio â pharagraff (5), ar unrhyw adeg tra bo'r cyfnod atal dros dro yn unol â'r gorchymyn cynharaf yn parhau.
- (7) Os bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn atal dros dro ymarferydd mewn achos sy'n disgyn o fewn paragraff (1)(c) neu (ch), bydd yr atal dros dro yn cael effaith o'r dyddiad y rhoddodd y Bwrdd Iechyd Lleol wybod i'r ymarferydd am yr atal dros dro a bydd yn parhau hyd nes—
- (a) y bydd unrhyw gyfnod apêl yn dod i ben; neu
 - (b) os yw'r ymarferydd yn apelio o dan reoliad 15, hyd nes y bo'r FHSAA wedi penderfynu'r apêl.
- (8) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ymestyn cyfnod yr atal dros dro o dan baragraff (2) neu osod cyfnod arall o atal dros dro o dan baragraff (3), cyn belled â bod y cyfanswm yn ddim mwy na chwe mis.
- (9) Effaith yr atal dros dro yw tra bod ymarferydd wedi ei atal dros dro o dan y Rheoliadau hyn rhaid i'r ymarferydd gael ei drin fel pe bai heb gael ei gynnwys ar restr atodol y Bwrdd Iechyd Lleol, er bod ei enw'n ymddangos ar y rhestr.
- (10) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ar unrhyw adeg ddirymu'r atal dros dro a hysbysu'r ymarferydd am ei benderfyniad.
- (11) Lle bo Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried atal ymarferydd dros dro neu'n amrywio cyfnod yr atal dros dro o dan y rheoliad hwn, rhaid iddo roi i'r ymarferydd—
- (a) hysbysiad am unrhyw honiad yn erbyn yr ymarferydd;
 - (b) hysbysiad am y camau gweithredu y mae'n ystyried eu cymryd ac ar ba sail;
 - (c) y cyfle i gyflwyno ei achos mewn gwrandawriad llafar o flaen y Bwrdd, ar ddiwrnod penodedig, cyn belled â bod yr ymarferydd yn cael gwybod am y gwrandawriad o leiaf 24 awr ymlaen llaw.
- (12) Os nad yw'r ymarferydd eisiau cael gwrandawriad llafar neu os nad yw'n bresennol yn y gwrandawriad llafar caiff y Bwrdd Iechyd Lleol atal yr ymarferydd ar unwaith.
- (13) Os cynhelir gwrandawriad llafar, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol roi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wneir cyn iddo ddod i benderfyniad.
- (14) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol atal yr ymarferydd ar unwaith ar ôl y gwrandawriad.
- (15) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ymarferydd am ei benderfyniad ac am y rhesymau am y penderfyniad (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnir arnynt) o fewn 7 diwrnod ar ôl gwneud y penderfyniad.
- (16) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ymarferydd am unrhyw hawl i adolygu o dan reoliad 14.

(17) Yn ystod cyfnod o atal dros dro gellir gwneud taliadau i'r ymarferydd neu mewn perthynas â'r ymarferydd yn unol â phenderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Adolygiadau

14.—(1) Caiff Bwrdd Iechyd Lleol adolygu ei benderfyniad, ac os caiff gais ysgrifenedig gan yr ymarferydd mae'n rhaid iddo adolygu ei benderfyniad i—

- (a) osod neu amrywio amodau a osodwyd o dan reoliad 8;
- (b) i osod neu amrywio amodau a osodwyd o dan reoliad 12; neu
- (c) i atal yr ymarferydd dros dro o dan reoliad 13(1)(a) neu (b), ac eithrio lle bo atal dros dro yn parhau trwy orchymyn yr FHSAA.

(2) Ni all yr ymarferydd ofyn am adolygiad o benderfyniad y Bwrdd Iechyd Lleol hyd nes bydd cyfnod o dri mis wedi dod i ben gan ddechrau gyda dyddiad ei benderfyniad, neu mewn achos o restru yn amodol o dan reoliad 8, gan ddechrau gyda'r dyddiad y mae'n cynnwys enw'r ymarferydd ar y rhestr atodol.

(3) Ar ôl i adolygiad gael ei gynnal, ni all yr ymarferydd ofyn am adolygiad pellach cyn i chwe mis ddod i ben o ddyddiad y penderfyniad ar yr adolygiad diwethaf.

(4) Os bydd Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu adolygu ei benderfyniad o dan y rheoliad hwn i restru yn amodol, tynnu enw'n amodol neu atal ymarferydd dros dro, mae'n rhaid iddo roi i'r ymarferydd—

- (a) hysbysiad am unrhyw honiad a wnaed yn erbyn yr ymarferydd;
- (b) hysbysiad am y camau gweithredu y mae'n eu hystyried a'u sail;
- (c) y cyfle i wneud sylwadau ysgrifenedig i'r Bwrdd o fewn 28 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad o dan is-baragraff (b); ac
- (ch) cyfle i gyflwyno ei achos mewn gwrandawriad llafar o flaen y Bwrdd, os yw'r ymarferydd yn gofyn am hynny o fewn y cyfnod 28 o ddiwrnodau a grybwyllwyd yn is-baragraff (c).

(5) Oni wneir sylwadau o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (4)(c), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ymarferydd o'i benderfyniad, y rhesymau am y penderfyniad (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnir arnynt) ac am unrhyw hawl i apelio o dan reoliad 15.

(6) Os bydd yr ymarferydd yn gwneud sylwadau, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol roi ystyriaeth iddynt cyn dod i benderfyniad.

(7) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ymarferydd am—

- (a) ei benderfyniad;
- (b) y rhesymau am y penderfyniad (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnir arnynt);
- (c) unrhyw hawl i apelio o dan reoliad 15; ac
- (ch) hawl i adolygiad pellach o dan y rheoliad hwn,

o fewn 7 diwrnod ar ôl gwneud y penderfyniad hwnnw.

(8) Pan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn hysbysu'r ymarferydd o dan baragraff (7) (c), mae'n rhaid iddo hefyd hysbysu'r ymarferydd bod rhaid iddo, os yw'n dymuno defnyddio ei hawl i apelio, wneud hynny o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau gyda'r dyddiad y rhoddodd hysbysiad o'i benderfyniad a bydd rhaid i'r Bwrdd hefyd roi gwybod i'r ymarferydd sut mae defnyddio unrhyw hawl o'r fath.

(9) Os bydd Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu adolygu ei benderfyniad i osod amodau o dan reoliad 8, caiff amrywio'r amodau, gosod amodau gwahanol, tynnu'r amodau neu dynnu'r ymarferydd oddi ar ei restr atodol.

(10) Os bydd Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu adolygu ei benderfyniad i dynnu'n amodol o dan reoliad 12, gall amrywio'r amodau, gosod gwahanol amodau neu dynnu'r ymarferydd oddi ar ei restr atodol.

(11) Os bydd Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu adolygu ei benderfyniad i atal ymarferydd dros dro o dan reoliad 13(1)(a) neu (b), caiff benderfynu gosod amodau neu dynnu'r ymarferydd oddi ar ei restr atodol.

(12) Ni all Bwrdd Iechyd Lleol adolygu ei benderfyniad i atal ymarferydd dros dro o dan reoliad 13(1)(c) neu (ch).

Apeliadau

15.—(1) Caiff ymarferydd apelio i'r FHSAA (trwy ofyn iddo ailbenderfynu) yn erbyn penderfyniad gan Fwrdd Iechyd Lleol a grybwyllwyd ym mharagraff (2) trwy hysbysu'r FHSAA.

(2) Penderfyniadau'r Bwrdd Iechyd Lleol sydd dan sylw yw—

- (a) penderfyniad i wrthod mynediad i'r rhestr atodol o dan reoliad 6(1);
- (b) penderfyniad i osod amod arbennig o dan reoliad 8, neu amrywio unrhyw amod neu osod amod gwahanol o dan y rheoliad hwnnw;
- (c) unrhyw benderfyniad ar adolygiad o dan reoliad 14 o gynnwys ymarferydd yn amodol o dan reoliad 8;
- (ch) unrhyw benderfyniad i dynnu'r ymarferydd oddi ar y rhestr o dan reoliadau 8(2), 10(4) neu (7), 12(3)(c) neu 15(6)(b);
- (d) unrhyw benderfyniad i osod amod arbennig o dan reoliad 12(1), neu i amrywio unrhyw amod neu i osod amod gwahanol o dan y rheoliad hwnnw;
- (dd) unrhyw benderfyniad ar adolygiad o dan reoliad 14 i dynnu'r ymarferydd oddi ar y rhestr yn amodol o dan reoliad 12(1); ac
- (e) unrhyw benderfyniad i drosglwyddo neu symud yr ymarferydd o dan reoliad 21(12).

(3) Ar apêl caiff yr FHSAA wneud unrhyw benderfyniad y gallai'r Bwrdd Iechyd Lleol fod wedi ei wneud.

(4) Pan fydd FHSAA ar apêl yn penderfynu y bydd cynnwys yr ymarferydd sy'n apelio ar y rhestr atodol yn ddarostyngedig i amodau, boed yr amodau hynny yr un fath â'r amodau a osodwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu beidio, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ofyn i'r apelydd ei hysbysu o fewn 28 diwrnod o'r penderfyniad (neu gyfnod hirach yn ôl cytundeb y Bwrdd Iechyd Lleol) os yw'r ymarferydd yn dymuno cael ei gynnwys ar y rhestr atodol yn ddarostyngedig i'r amodau hynny.

(5) Os yw'r ymarferydd yn hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol ei fod eisiau cael ei gynnwys ar y rhestr atodol yn ddarostyngedig i'r amodau, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol gynnwys yr ymarferydd ar y rhestr.

(6) Pan fo'r FHSAA ar apêl yn penderfynu tynnu'r ymarferydd oddi ar y rhestr yn amodol—

- (a) caiff y Bwrdd Iechyd Lleol a'r ymarferydd wneud cais i'r FHSAA i'r amodau a osodwyd ar yr ymarferydd gael eu hamrywio, neu osod gwahanol amodau, neu ddirymu'r penderfyniad i dynnu ei enw'n amodol; a
- (b) caiff y Bwrdd Iechyd Lleol dynnu'r ymarferydd oddi ar ei restr atodol os yw'n penderfynu nad yw'r ymarferydd wedi cydymffurfio ag amod.

Hysbysiad

16.—(1) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu—

- (a) gwrthod cynnwys ymarferydd ar ei restr atodol ar y sail a nodwyd yn rheoliad 6;

- (b) gosod amodau ar gynnwys yr ymarferydd ar y rhestr honno o dan reoliad 8;
- (c) tynnu'r ymarferydd oddi ar y rhestr honno o dan reoliad 10;
- (d) tynnu'r ymarferydd oddi ar y rhestr honno yn amodol o dan reoliad 12; neu
- (e) atal yr ymarferydd dros dro o'r rhestr honno o dan reoliad 13,

rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r personau neu gyrff a nodir ym mharagraff (2) a rhaid iddo hefyd hysbysu'r rhai sydd wedi eu cynnwys ym mharagraff (3), os gofynnir iddo wneud hynny gan y personau neu gyrff hynny mewn ysgrifed (gan gynnwys ffurf electronig) o'r materion sydd wedi eu nodi ym mharagraff (4).

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol, o fewn 7 diwrnod o'r penderfyniad hwnnw, hysbysu—

- (a) Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- (b) unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol neu gorff cyfatebolsydd, yn ôl yr wybodaeth sydd gan y Bwrdd Iechyd Lleol,—
 - (i) wedi cynnwys yr ymarferydd ar ei restr neu restr gyfatebol,
 - (ii) sy'n ystyried cais gan yr ymarferydd i gael ei gynnwys ar unrhyw restr neu restr gyfatebol, neu
 - (iii) y mae ganddo yn ei ardal unrhyw fan pan fo'r ymarferydd yn helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol;
- (c) yr Ysgrifennydd Gwladol;
- (ch) Gweithgor yr Alban;
- (d) Gweithgor Gogledd Iwerddon;
- (dd) y Cyngor Meddygol Cyffredinol, Cyngor Optegol Cyffredinol neu unrhyw gorff rheoleiddio priodol arall;
- (e) yr NPSA; ac
- (f) mewn achos o dwyll, Gwasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

(3) Dyma'r personau neu gyrff sydd i'w hysbysu hefyd yn unol â pharagraff (1)—

- (a) personau neu gyrff sy'n gallu dangos—
 - (i) eu bod yn cyflogi'r ymarferydd neu wedi ei gyflogi, yn defnyddio neu wedi defnyddio gwasanaethau'r ymarferydd, neu
 - (ii) eu bod yn ystyried cyflogi neu ddefnyddio gwasanaethau'r ymarferydd mewn swyddogaeth proffesiynol; a
- (b) partneriaeth, y mae unrhyw aelod ohoni'n darparu neu'n helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol, ac sy'n gallu dangos bod yr ymarferydd yn aelod neu wedi bod yn aelod o'r bartneriaeth neu ei bod yn ystyried gwahodd yr ymarferydd i ymaelodi.

(4) Dyma'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)—

- (a) enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r ymarferydd;
- (b) rhif cofrestru'r ymarferydd;
- (c) dyddiad a chopi o benderfyniad y Bwrdd Iechyd Lleol; ac
- (ch) enw person y gellir cysylltu ag ef yn y Bwrdd Iechyd Lleol gyda rhagor o ymholiadau.

(5) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol anfon at yr ymarferydd dan sylw gopi o unrhyw wybodaeth amdano y mae wedi ei darparu i'r personau neu'r cyrff a restrir ym mharagraff (2) neu (3), ac unrhyw ohebiaeth gyda'r person neu'r corff hwnnw mewn perthynas â'r wybodaeth honno.

(6) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi hysbysu unrhyw un o'r personau neu gyrff a nodwyd ym mharagraff (2) neu (3) o'r materion a nodir ym mharagraff (4), caiff hefyd, os gofynnir iddo gan y person neu'r corff hwnnw, hysbysu'r person neu'r corff hwnnw o unrhyw dystiolaeth a ystyriwyd, gan gynnwys unrhyw sylwadau gan yr ymarferydd.

(7) Os bydd Bwrdd Iechyd Lleol yn cael ei hysbysu gan yr FHSAA ei fod wedi gosod anghymhwysiad cenedlaethol ar ymarferydd a oedd wedi ei gynnwys neu wedi gwneud cais i gael ei gynnwys ar ei restr atodol, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r personau neu'r gyrff a restrir ym mharagraff (2)(b), (e) a (f) a pharagraff (3).

(8) Os bydd penderfyniad yn cael ei newid ar ôl adolygiad neu apêl, neu pan fydd ataliad dros dro yn dod i ben, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r personau neu'r gyrff a hysbyswyd am y penderfyniad gwreiddiol, o'r penderfyniad diweddaraf neu'r ffaith bod yr ataliad dros dro wedi dod i ben.

Diwygio rhestri atodol neu dynnu enwau yn ôl o restr atodol

17.—(1) Rhaid i ymarferydd, oni bai ei fod yn anymarferol iddo wneud hynny, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol o fewn 28 diwrnod i unrhyw ddigwyddiad sy'n gofyn newid yn yr wybodaeth a gofnodwyd ynglyn â'r ymarferydd ar y rhestr atodol ac am unrhyw newid yn ei gyfeiriad preifat.

(2) Pan fo ymarferydd yn bwriadu tynnu yn ôl o restr atodol, oni bai ei fod yn anymarferol iddo wneud hynny, rhaid i'r ymarferydd roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol o leiaf dri mis cyn y dyddiad hwnnw.

(3) Rhaid i ymarferydd roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol ei fod yn bwriadu tynnu yn ôl o'i restr atodol os bydd yr ymarferydd yn cael ei dderbyn ar ei restr offthalmig, neu ar restr offthalmig neu restr atodol Bwrdd Iechyd Lleol arall.

(4) Ar ôl derbyn hysbysiad oddi wrth unrhyw ymarferydd, bydd y Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) yn unol â pharagraff (1), yn diwygio ei restr atodol cyn gynted ag y bo modd;

(b) yn unol â pharagraff (2), yn diwygio ei restr atodol naill ai—

(i) ar y dyddiad sy'n disgyn 3 mis ar ôl dyddiad yr hysbysiad, neu

(ii) ar y dyddiad y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi cytuno y bydd tynnu enw'r ymarferydd yn ôl o'r rhestr yn cael effaith ,

pa un bynnag yw'r cynharaf; neu

(c) yn unol â pharagraff (3), yn tynnu enw'r ymarferydd ar unwaith oddi ar y rhestr.

(5) Caiff ymarferydd dynnu yn ôl hysbysiad a roddwyd yn unol â pharagraff (1) neu (2) ar unrhyw adeg cyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol dynnu ei enw oddi ar ei restr atodol.

(6) Ni ellir tynnu yn ôl hysbysiad a roddwyd yn unol â pharagraff (3) unwaith bod yr ymarferydd wedi cael ei dderbyn ar y rhestr arall honno.

Cyfyngu ar dynnu enwau yn ôl o restr

18.—(1) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn ymchwilio i ymarferydd—

(a) at bwrpas penderfynu a ddylai ymarfer ei bwerau i dynnu'r ymarferydd oddi ar y rhestr neu beidio o dan reoliad 12; neu

(b) sydd wedi ei atal dros dro o dan reoliad 13,

ni chaiff yr ymarferydd dynnu yn ôl o unrhyw restr a gedwir gan Fwrdd Iechyd Lleol y mae enw'r ymarferydd wedi ei gynnwys ynddi, ac eithrio lle mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi rhoi caniatâd, hyd nes bydd y mater wedi cael ei benderfynu'n derfynol gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

(2) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol wedi penderfynu tynnu ymarferydd oddi ar ei restr atodol o dan reoliad 10(4) i (7) neu i dynnu'r ymarferydd yn amodol o'r rhestr o dan reoliad 12, ond nad yw hyd yma wedi gweithredu ei benderfyniad, ni all yr ymarferydd dynnu yn ôl o unrhyw restr a gedwir gan y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n ei gynnwys, ac eithrio lle mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi rhoi caniatâd.

(3) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol wedi atal ymarferydd dros dro o dan reoliad 13(1)(b), ni all ymarferydd dynnu yn ôl o unrhyw restr a gedwir gan Fwrdd Iechyd Lleol sy'n ei gynnwys, ac eithrio lle mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi rhoi caniatâd, hyd nes bydd penderfyniad y llys neu gorff perthnasol yn wybyddus a bod y mater wedi cael ei ystyried a'i benderfynu'n derfynol gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Cyfnodau adolygu ar gyfer anghymhwysiad cenedlaethol

19. Y cyfnod ar gyfer adolygu fydd y cyfnod sydd wedi ei nodi isod, yn lle'r hyn sydd wedi ei nodi yn adran 49N(8), lle bo'r amgylchiadau fel a ganlyn—

- (a) wrth wneud penderfyniad i osod anghymhwysiad cenedlaethol, dywed yr FHSAA ei fod o'r farn bod ymddygiad troseddol neu broffesiynol yr ymarferydd yn golygu nad oes unrhyw obaith realistig y bydd adolygiad pellach yn llwyddiannus, os caiff ei gynnal o fewn y cyfnod a nodir yn adran 49N(8)(a), ac os felly mae'r cyfeiriad at “ddwy flynedd” yn yr adran honno yn gyfeiriad at bum mlynedd;
- (b) ar adolygiad diwethaf yr FHSAA o anghymhwysiad cenedlaethol nid oedd yr ymarferydd yn llwyddiannus a dywed yr FHSAA ei fod o'r farn nad oes unrhyw obaith realistig y bydd adolygiad pellach yn llwyddiannus os caiff ei gynnal o fewn cyfnod o dair blynedd gan ddechrau gyda dyddiad ei benderfyniad ar yr adolygiad hwnnw, ac os felly mae'r cyfeiriad at “un flynedd” yn adran 49N(8) (b) yn gyfeiriad at dair blynedd;
- (c) dywed yr FHSAA ei fod o'r farn, oherwydd bod collfarn droseddol a ystyriwyd gan y FHSAA wrth ddod i'r penderfyniad y mae ei effaith mewn grym wedi cael ei dileu neu fod y gosb wedi cael ei gostwng ar apêl, bod angen adolygiad ar unwaith, ac os felly mae'r cyfeiriad at “ddwy flynedd” neu “un flynedd” yn adran 49N(8) yn cyfeirio at y cyfnod sydd eisoes wedi mynd heibio; neu
- (ch) mae'r FHSAA o'r farn oherwydd bod penderfyniad corff trwyddedu, rheoleiddio neu arall wedi cael ei ddileu neu bod y gosb wedi cael ei gostwng ar apêl, bod angen adolygiad ar unwaith, os felly mae'r cyfeiriad at “ddwy flynedd” neu “un flynedd” yn adran 49N(8) yn cyfeirio at y cyfnod sydd eisoes wedi mynd heibio.

Datgelu gwybodaeth

20.—(1) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ddatgelu gwybodaeth a roddwyd iddo neu a gafwyd ganddo yn unol â'r Rheoliadau hyn i unrhyw un o'r canlynol—

- (a) Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- (b) unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol arall neu gorff cyfatebol, sydd yn ôl y wybodaeth sydd ganddo—
 - (i) ag ymarferydd ar unrhyw un o'i restr y mae'r wybodaeth honno yn berthnasol iddo,
 - (ii) yn ystyried cais gan ymarferydd i gael ei gynnwys ar unrhyw un o'i restr, neu
 - (iii) ag unrhyw fan yn ei ardal lle mae'r ymarferydd yn helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol;
- (c) yr Ysgrifennydd Gwladol;
- (ch) Gweithgor yr Alban;
- (d) Gweithgor Gogledd Iwerddon;

- (dd) y Cyngor Meddygol Cyffredinol, Cyngor Optegol Cyffredinol neu unrhyw gorff trwyddedu neu reoleiddio arall;
- (e) unrhyw gorff neu gyflogwr sydd, yn ôl yr wybodaeth sydd gan y Bwrdd Iechyd Lleol, yn cyflogi neu'n defnyddio gwasanaethau'r ymarferydd, y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddo, mewn swyddogaeth proffesiynol;
- (f) unrhyw bartneriaeth, y mae unrhyw un o'i haelodau yn darparu neu'n helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol, ac y bo'r ymarferydd, yn ôl y wybodaeth sydd gan y Bwrdd Iechyd Lleol, yn aelod ohoni neu sy'n ystyried gwahodd yr ymarferydd i fod yn aelod; a
- (ff) lle mae cyhuddiad o dwyll yn cael ei ystyried, Gwasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

(2) Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddatgelu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wybodaeth a roddwyd iddo neu a gafwyd ganddo yn unol â'r Rheoliadau hyn, a bydd y Cynulliad yn gofyn am y wybodaeth honno o dro i dro.

Darpariaethau Trosiannol

21.—(1) Caiff unrhyw ymarferydd, sydd heb ei gynnwys ar restr offthalmig, ond a oedd yn helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol ar 31 Ionawr 2006 barhau i wneud hynny, er gwaethaf rheoliad 3(3), tan—

- (a) 1 Awst 2006; neu
- (b) y dyddiad y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn hysbysu'r ymarferydd o'i benderfyniad o dan reoliad 6(6),

pa un bynnag yw'r cynharaf, cyn belled â bod yr ymarferydd, yn unol â'r Rheoliadau hyn, yn gwneud cais i Fwrdd Iechyd Lleol am gael ei gynnwys ar ei restr atodol ddim hwyrach na 1 Mai 2006.

(2) Caiff unrhyw ymarferydd sydd ddim yn disgyn o fewn paragraff (1) sydd wedi gwneud cais i gael ei gynnwys ar restr atodol ar neu cyn 1 Mai 2006, helpu i ddarparu gwasanaethau ophthalmig cyffredinol ar ôl dyddiad y cais, er gwaethaf rheoliad 3(3), tan—

- (a) 1 Awst 2006; neu
- (b) y dyddiad y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn hysbysu'r ymarferydd o'r penderfyniad

pa un bynnag yw'r cynharaf.

(3) Rhaid i unrhyw ymarferydd y mae paragraff (1) neu (2) yn berthnasol iddo gydymffurfio â rheoliad 9, os bydd unrhyw un o'r digwyddiadau a nodir yn digwydd, yn union fel pe bai wedi ei gynnwys ar restr atodol y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r ymarferydd yn helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol yn ei ardal.

(4) Ni chaiff ymarferydd helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol yn rhinwedd paragraff (1) neu (2) yn ystod unrhyw gyfnod y bo'r ymarferydd yn destun hysbysiad atal dros dro a roddwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol o dan baragraff (5).

(5) Caiff Bwrdd Iechyd Lleol roi hysbysiad atal dros dro i ymarferydd y bo paragraff (1) neu (2) yn berthnasol iddo lle bo wedi ei fodloni bod rhaid gwneud hynny i ddiogelu'r cyhoedd neu pan fydd hynny er lles y cyhoedd mewn rhyw ffordd arall.

(6) Caiff Bwrdd Iechyd Lleol dynnu yn ôl hysbysiad atal dros dro y mae wedi ei roi o dan baragraff (5) ar unrhyw adeg.

(7) Yn ystod cyfnod atal dros dro gellir gwneud taliadau i ymarferydd neu mewn perthynas â'r ymarferydd gan y Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â phenderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(8) Lle bo Bwrdd Iechyd Lleol—

- (a) wedi derbyn cais oddi wrth ymarferydd y mae paragraff (1) neu (2) yn berthnasol iddo; ac

- (b) yn dod i wybod mewn perthynas â'r ymarferydd am unrhyw un o'r materion a restrir yn rheoliad 10(1),

mae'n rhaid iddo benderfynu ar unwaith gais yr ymarferydd hwnnw i gael ei gynnwys ar ei restr atodol.

(9) Caiff Bwrdd Iechyd Lleol gyhoeddi rhestr o'r ymarferwyr y mae eu ceisiadau wedi cael eu cymeradwyo i gael eu cynnwys ar ei restr atodol cyn 1 Awst 2006.

(10) Os yw'n ymddangos i'r Bwrdd Iechyd Lleol, ar neu ar ôl 1 Chwefror 2006, yn achos unrhyw ymarferydd y mae ei enw wedi ei gynnwys ar ei restr offthalmig ar 31 Ionawr 2006—

- (a) nad oedd yn gymwys i enw'r ymarferydd hwnnw fod wedi'i gynnwys ar ei restr offthalmig; ond
- (b) y byddai'n gymwys i enw'r ymarferydd hwnnw, os byddai'n gwneud cais i hynny ddigwydd gael ei gynnwys yn ei restr atodol,

rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol gymryd y camau a bennir ym mharagraff (11).

(11) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol—

- (a) roi hysbysiad i'r ymarferydd i'r perwyl hwnnw, ynghyd â'r cyfle i wneud sylwadau ysgrifenedig iddo o fewn 28 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad; ac
- (b) ymgynghori ag unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol arall y mae'r ymarferydd, yn ôl yr wybodaeth sydd gan y Bwrdd, wedi ei gynnwys ar ei restr offthalmig.

(12) Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau o dan baragraff (11)(b), os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol yn fodlon nad yw'r ymarferydd yn bodloni'r gofynion i gael ei gynnwys ar ei restr offthalmig, mae'n rhaid iddo—

- (a) dynnu enw'r ymarferydd oddi ar ei restr offthalmig; ac
- (b) oni bai bod enw'r ymarferydd wedi ei gynnwys ar y rhestr offthalmig neu restr atodol Bwrdd Iechyd Lleol arall, gynnwys ei enw ar ei restr atodol.

(13) Mewn achos lle mae paragraff (12) yn berthnasol, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r ymarferydd o'i benderfyniad a'r rhesymau amdano (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnwyd arnynt) o fewn 7 diwrnod o wneud y penderfyniad hwnnw.

(14) Pan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn hysbysu'r ymarferydd o'i benderfyniad o dan baragraff (13), mae'n rhaid iddo hefyd roi gwybod i'r ymarferydd, os bydd eisiau ymarfer ei hawl i apelio, y bydd rhaid iddo wneud hynny o fewn y cyfnod 28 diwrnod gan ddechrau gyda'r dyddiad y rhoddodd hysbysiad i'r ymarferydd o'i benderfyniad ac mae'n rhaid i'r Bwrdd hefyd ddweud wrth yr ymarferydd sut i ddefnyddio unrhyw hawl o'r fath.

(15) Pan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn hysbysu'r ymarferydd o'i benderfyniad yn unol â pharagraff (13) mae'n rhaid iddo hefyd hysbysu unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol yr ymgynghorodd ag ef yn unol â pharagraff (11)(b).

(16) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol weithredu o dan baragraffau (10) i (12), er mwyn ei alluogi i wneud penderfyniad o dan baragraff (12), cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

(17) Mewn unrhyw achos lle bo Bwrdd Iechyd Lleol—

- (a) ar neu cyn 31 Ionawr 2006, wedi derbyn cais gan ymarferydd i gael ei gynnwys ar ei restr offthalmig;
- (b) heb benderfynu'r cais hwnnw cyn y dyddiad hwnnw; ac
- (c) yn ystyried nad yw'n briodol i gynnwys yr ymarferydd sy'n gwneud cais ar ei restr offthalmig, ond y gall fod yn briodol cynnwys yr ymarferydd ar ei restr atodol,

mae'n rhaid iddo drin y cais hwnnw fel cais i gael ei gynnwys ar ei restr atodol.

RHAN 2

Diwygiadau i'r Rheoliadau Offthalmig

Dehongliad

22. Yn y Rhan hon ystyr “Rheoliadau Offthalmig” (“*the Ophthalmic Regulations*”) yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986(20).

Diwygio rheoliad 2

23.—(1) Diwygir Rheoliad 2 o'r Rheoliadau Offthalmig (dehongli) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff (1)—

(a) yn lle diffiniadau o “deputy”, “equivalent body”, “licensing or regulatory body”, “mobile practice” ac “suspended” rhodder yn eu trefn—

““deputy” (“*dirpwy*”) means an ophthalmic medical practitioner or an optician, who is included in an ophthalmic list or a supplementary list and assists in the provision of general ophthalmic services;”;

““equivalent body” (“*corff cyfatebol*”) means—

- (a) a Primary Care Trust in England;
 - (b) a Health Board or NHS Trust in Scotland;
 - (c) a Health and Social Services Board in Northern Ireland; or
 - (d) in relation to any time prior to 1 April 2003, a Health Authority in Wales; or
 - (e) in relation to any time prior to 1 October 2002, a Health Authority in England;”;
- ““licensing or regulatory body” (“*corff trwyddedu neu reoleiddio*”) means—

- (a) a body that licenses or regulates any profession of which the ophthalmic medical practitioner or optician is or has been a member, include a body regulating or licensing the education, training or qualifications of that profession; and
- (b) includes any body which licenses or regulates any such profession, its education or qualifications, outside the United Kingdom;”;

““mobile practice” (“*practis symudol*”) means a contractor who—

- (a) has made arrangements with the Local Health Board to provide mobile services; and
- (b) does not have premises in the locality;” and

““suspended” (“*atal dros dro*”) means suspended—

- (a) in relation to England and Wales, by a Local Health Board or equivalent body under section 49I or 49J of the Act or under Regulations made under—
 - (i) sections 28DA or 43D of the Act, or
 - (ii) section 8ZA of the National Health Service (Primary Care) Act 1997(21), including these Regulations;

(20) O.S.1986/975

(21) 1997 c. 46

- (b) in relation to Scotland or Northern Ireland, under provision in force corresponding to those in or made under sections 28DA, 43D, 49I or 49J of the Act or under section 8ZA of the National Health Service (Primary Care) Act 1997,

and will be treated as including a case where a person is treated as suspended by a Local Health Board or, prior to 1 April 2003, by a Health Authority, by virtue of regulation 6(2) of the Abolition of the Tribunal (Wales) Regulations, or in England, by a Primary Care Trust, or prior to 1 October 2002, by a Health Authority by virtue of regulation 6(2) of the Abolition of the Tribunal Regulations, and “suspends” and “suspension” will be construed accordingly;”;

- (b) mewnosoder y diffiniadau canlynol yn y lle priodol yn ôl trefn yr wyddor—

““corporate optician” (“*optegydd corfforaethol*”) means an optician which is a body corporate carrying on business as an optician;”;

““mobile services” (“*gwasanaethau symudol*”) means general ophthalmic services provided at—

- (a) a day centre;
 (b) a residential centre; or
 (c) the patient’s home, where the patient is unable to leave it unaccompanied because of physical or mental illness or disability,

which a contractor has made arrangements with a Local Health Board to provide in its locality;”;

““the NCAA” means the National Clinical Assessment Authority;”;

““the NHS Counter Fraud Security and Management Service” (“*Gwasanaeth Gwrth Dwyll a Rheoli Diogelwch y Gwasanaeth Iechyd Gwladol*”) means the service with responsibility for policy and operational matters relating to the prevention, detection and investigation of fraud or corruption and the management of security in the National Health Service, established by the Counter Fraud and Security Management Service Establishment and Constitution Order 2002;”;

““notice” (“*hysbysiad*”) means a notice in writing (including electronic) and “notify” is to be construed accordingly;”;

““ophthalmic list” (“*rhestr offthalmig*”) means the list prepared by a Local Health Board under regulation 6;”;

““the register” (“*y gofrestr*”), except where the context otherwise requires, means, in relation to an ophthalmic medical practitioner, a register maintained by the General Medical Council, or in relation to an optician, a register or list maintained by the General Optical Council;”;

““supplementary list” (“*rhestr atodol*”) means the list prepared by the Local Health Board under regulation 3 of the Supplementary List Regulations;” and

““Supplementary List Regulations” (“*Rheoliadau Rhestr Atodol*”) means the National Health Service (General Ophthalmic Services Supplementary List) and (General Ophthalmic Services)(Amendment and Consequential Amendment) (Wales) Regulations 2006;”;

- (c) hegporer y diffiniad o “the National Health Service Counter Fraud Service”.

- (3) Ar ôl paragraff (3) mewnosoder y paragraff canlynol—

“(4) In these Regulations any reference to “he” or “she”, “him” or “her” or “his” or “her”, when referring to an optician includes a reference to a corporate optician.”

Diwygio rheoliad 6

24.—(1) Diwygir rheoliad 6 o'r Rheoliadau Offthalmig (rhestr offthalmig) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff (1), ar ôl y geiriau “shall keep” mewnosoder “and publish”.

(3) Ym mharagraff (3)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (a) ychwaneger—

“and in relation to each person—

(i) the person’s professional registration number with—

(aa) suffixed to that number, the organisational code given by the National Assembly for Wales to the Local Health Board, and

(bb) prefixed to that number, the initials OL,

(ii) in the case of an individual, where consent is given, that person’s date of birth or where consent is not given or in the case of a corporate optician, the date of that it’s first registration in the register, and

(iii) the date that the person’s name was included in the ophthalmic list;”;

(b) rhodder yr is-baragraff canlynol yn lle is-baragraff (b)—

“(b) except in the case of a mobile practice, the addresses of any places in the Local Health Board’s locality at which they have undertaken to provide general ophthalmic services, other than mobile services;”;

(c) yn is-baragraff (c) dileër y geiriau o “or in the case of” at ddiwedd yr is-baragraff;

(ch) yn is-baragraff (d)—

(i) ar ôl “or employee”, mewnosoder “in assisting”, ac

(ii) ar ddiwedd yr is-baragraff, ychwaneger “or in the provision of mobile services”; ac

(d) ar ddiwedd y paragraff, ychwaneger yr is-baragraff canlynol—

“(e) if the contractor has made arrangements with the Local Health Board to provide mobile services—

(i) that fact,

(ii) the addresses of any day or residential centres visited regularly, with particulars of the months in which visits are planned to take place and the planned interval between such visits, and

(iii) if that contractor is a mobile practice, that fact and the addresses to which correspondence in connection with such provision may be sent.”.

Diwygio rheoliad 7

25.—(1) Diwygir Rheoliad 7 o'r Rheoliadau Offthalmig (cais am gael ei gynnwys ar y rhestr offthalmig a'r hysbysiad) yn unol â darpariaeth ganlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff (1)—

(a) yn lle “body corporate carrying on business as ophthalmic opticians” rhodder “corporate optician”; ac

(b) ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder yr is-baragraff canlynol—

“(aa) if the applicant wishes to provide mobile services, a statement to that effect, with an undertaking to provide mobile services and to comply with the terms of service relevant to the provision of mobile services;”.

(2) Ar ôl paragraff (1) mewnosoder y paragraffau canlynol—

“(1A) In the case of an application to a Local Health Board by an ophthalmic medical practitioner or optician who is included in the supplementary list of that Local Health Board, seeking to withdraw from that list and to include his or her name in its ophthalmic list, he or she will only be required to provide any information and undertakings required by paragraph (1) and Schedule 1A insofar as—

- (a) he or she has not already supplied it to that Local Health Board; or
- (b) it has changed since it was provided.

(1B) Before making a decision on the application of the ophthalmic medical practitioner or optician, the Local Health Board must—

- (a) check, as far as reasonably practicable, the information provided by the ophthalmic medical practitioner or optician, in particular that provided under Schedule 1A, and must ensure that it has sight of relevant documents;
- (b) check with the NHS Counter Fraud and Security Management Service whether the applicant has any record of fraud;
- (c) check with the National Assembly for Wales as to any information held by it as to any record about past or current investigations or proceedings involving or relating to the ophthalmic medical practitioner or optician; and
- (d) take up the references provided by the ophthalmic medical practitioner or optician under paragraph 9 of Schedule 1A.

(1C) When the Local Health Board has decided whether or not to include the applicant ophthalmic medical practitioner or optician in its list, it must notify him or her within 7 days of that decision of—

- (a) that decision; and
- (b) if the Local Health Board has decided not to include the ophthalmic medical practitioner or optician, the reasons for it (including any facts relied upon) and of any right of appeal under regulation 7C against that decision.”.

Diwygio rheoliad 7A

26.—(1) Diwygir Rheoliad 7A o'r Rheoliadau Offthalmig (sail am wrthod) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff (1)—

- (a) ar ôl “may refuse to include an ophthalmic medical practitioner or optician” mewnosoder y geiriau “in its list or to list him or her as providing mobile services”;
- (b) yn is-baragraff (a) dileer y geiriau “paragraph 7 of”;
- (c) yn is-baragraff (b) dileer y geiriau “paragraphs 5 and 6 of”;
- (ch) rhodder yr is-baragraff canlynol yn lle is-baragraff (d)—

“(d) that having checked with the NHS Counter Fraud and Security Management Service for any facts that it considers relevant relating to past or current fraud investigations involving or relating to the ophthalmic medical practitioner or optician and, having considered these and any other facts in its possession relating to fraud involving or relating to him or her, the Local Health Board considers these justify such refusal;”;

(d) ar ôl is-baragraff (e) ychwaneger—

“or

- (f) that, having checked with the National Assembly for Wales for any facts that it considers relevant relating to past or current investigations or proceedings involving or relating to the ophthalmic medical practitioner or optician and, having considered these and any other facts in its possession involving or relating to him or her, the Local Health Board considers these justify such refusal.”
- (3) Ym mharagraff (2) ar ôl is-baragraff (e) ychwaneger yr is-baragraffau canlynol—
- “(f) where he or she has not provided satisfactory evidence of his or her intention to provide general ophthalmic services in its locality;
- (g) except in the case of a corporate optician, where it is not satisfied that he or she has the knowledge of English which, in his or her own interests or those of his or her patients, is necessary for the provision of general ophthalmic services in its locality; or
- (h) where the ophthalmic medical practitioner or optician has had his or her name in the supplementary list of any Local Health Board.”
- (4) Ym mharagraff (3)—
- (a) ar ddiwedd is-baragraff (f), ychwaneger “or, if it had been committed in England and Wales, would have applied”; a
- (b) ar ôl is-baragraff (h) ychwaneger yr is-baragraffau canlynol—
- “(i) whether he or she is at the time, has in the preceding six months been, or was at the time of the originating events, a director of a body corporate which is currently suspended from such a list, and if so, the reasons relating to the matter which led to the suspension and the reasons given by the Local Health Board or equivalent body for the suspension;
